# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.45 y.b., DYDD MAWRTH, 26AIN MEDI, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*****

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO ANFFURFIOL I AELODAU YN UNIG AM 10:00AM**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Williams**

**01286 672729**

**SionedWilliams3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 20/09/2017)

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Steve Collings
Aled Ll. Evans
E. Selwyn Griffiths
Judith Mary Humphreys
Nia Wyn Jeffreys
Huw Gruffydd Wyn Jones
Olaf Cai Larsen
Paul John Rowlinson
Cemlyn Rees Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Freya Hannah Bentham
Elwyn Jones
Keith Jones
Beth Lawton
Jason Wayne Parry

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd
Gareth Williams

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

### Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---|---|
| *Anest Gray Frazer* | *Yr Eglwys yng Nghymru* |
| *Disgwyl Enwebiad* | *Yr Eglwys Gatholig* |
| *Karen Vaughan Jones* | *Cynrychiolaeth Rhieni – Llywodraethwr Ardal Dwyfor* |
| *Disgwyl Enwebiad* | *Cynrychiolaeth Rhieni – Llywodraethwr Ardal Gwyrfai* |
| *Disgwyl Enwebiad* | *Cynrychiolaeth Rhieni – Llywodraethwr Ardal Meirionydd* |

### Heb Bleidlais:

| | |
|---|---|
| *Dilwyn Elis Hughes* | *UCAC* |
| *David Healey* | *Undebau Athrawon (ATL)* |
| *Anest Gray Frazer* | *Yr Eglwys yng Nghymru* |
| *Karen Vaughan Jones* | *Representative for Dwyfor Parents Governors* |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2017, fel rhai cywir.

(Copi'n amgaedig)

## 5. DARPARU CYFLEUSTERAU HAMDDEN - SEFYDLU CWMNI WEDI EI REOLI GAN Y CYNGOR 7 - 24

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet ar gyfer Tai, Hamdden a Diwylliant.

Mae'r atodiadau ar wahan ar gyfer aelodau'r Pwyllgor yn unig.

Mae'r eitemau yn eithredig o dan Paragraffau 14 ac 16 o Atodiad 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (gwybodaeth yn ymwuneud a materion ariannol, busnes a chyfreithiol).

Mae'r adroddiad blaen yn agored ond mae'r atodiadau yn cynnwys gwybodaeth masnachol a chyfreithiol sensitif. Hynny oherwydd y byddai rhyddhau yr atodiadau yn llawn yn caniatáu i gyflenwyr annibynnol o'r Cyngor ddod i gasgliadau ynglŷn â pherfformiad ariannol ynghyd â ffioedd rheoli y gwahanol fodelau darparu. Yn sgil hynny, gall rhyddhau danseilio unrhyw drefniadau caffael i'r dyfodol fyddai'n gadael y Cyngor yn agored i risg ariannol o safbwynt rheoliadau caffael .Mae hefyd yn cynnwys cyngor cyfreithiol fyddai yn ddarostyngedig i fraint cyfreithiol.

## 6. CANLYNIADAU'R HAF 2017 25 - 37

## 7. STRATEGAETH IAITH UWCHRADD 38 - 70

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 29.06.17

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Freya Bentham, Steve Collings, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Elwyn Jones, H.G.Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Jason Parry, Paul Rowlinson, Cemlyn Williams a Gareth Williams.

**Aelod Cabinet:-** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg).

**Hefyd yn Bresennol:** Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Garem Jackson (Pennaeth Addysg Dros Dro), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Menna Baines, Aled Evans, Keith Jones, Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant) ac Ioan Thomas (Aelod Cabinet Economi).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am 2017/18.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Nia Jeffreys yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2017/18.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MONITRO PERFFORMIAD**

Gwahoddwyd aelodau i fynegi diddordeb mewn mynychu cyfarfodydd monitro perfformiad am y flwyddyn 2017/18. Eglurwyd bod 4 maes gwaith penodol i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, bod angen dau aelod ar bob grŵp ac y disgwylid i'r cynrychiolwyr fynychu cyfres o chwe cyfarfod dros gyfnod o ddwy flynedd.

Rhoddodd y canlynol eu henwau ymlaen ar gyfer y gwahanol grwpiau a nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn dewis yr enwebiadau terfynol.

- Grŵp Cymunedau Iach (Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Judith Humphreys)
- Grŵp Datblygu Economi Gwynedd (Y Cynghorwyr Elwyn Jones, H.G.Wyn Jones a Paul Rowlinson)
- Grŵp Cefnogi Cymunedau Cryf (Y Cynghorydd Elwyn Jones)
- Cyfarfod Herio Perfformiad Addysg (Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths (*ond yn methu bod yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y grŵp ar 11 Gorffennaf*), Cai Larsen, Dewi Owen, Jason Parry, Paul Rowlinson a Gareth Williams)

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.15 am.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| Dyddiad | 26ain o Fedi 2017 |
| Teitl | Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor |
| Awdur | Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned |
| Aelod | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Pwrpas | Craffu'r achos fusnes a'r argymhelliad i sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor er mwyn darparu cyfleusterau hamdden o fewn y Sir |

**1 Cyflwyniad**

1.1 Mae'r adroddiad sydd gerbron heddiw yn amlinellu'r sail dros argymell sefydlu Cwmni sydd wedi ei reoli gan y Cyngor i ddarparu cyfleusterau hamdden o fewn y sir.

1.2 Ym mis Rhagfyr 2014 bu'r Cyngor Llawn gymeradwyo cyfres o dargedau arbedion gan gynnwys gwerth £1.05m o arbedion i'w wireddu erbyn 2018/19 drwy newidiadau o fewn y gwasanaeth hamdden. Mae'r gwasanaeth wedi gwireddu oddeutu £800k ac yn hyderus o gyflawni £100k pellach ond mae darganfod y £150k sy'n weddill heb effeithio ar lefelau gwasanaeth yn profi'n anodd.

1.3 Mae'r argymhelliad yma'n cynnig cyfle i gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd heb gael effaith ar bobl Gwynedd. Pe na fyddem yn gwneud hyn, ac o gofio'r sefyllfa ariannol ddifrifol sydd o'm blaenau, mae'n debygol y bydd rhaid edrych i resymoli nifer o ganolfannau hamdden, neu gynyddu ffioedd yn sylweddol.

1.4 Gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar y cynllun hwn er mwyn eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cabinet ar y 3ydd o Hydref a'r Cyngor Llawn ar y 5ed o Hydref. Byddai derbyn cymeradwyaeth o fewn yr amserlen yno yn caniatáu i'r adran i wireddu arbedion yn bendant a ddi-oed.

**2 Cefndir**

2.1 Ar y 1af o Dachwedd 2016 bu'r Cabinet gomisiynu darn o waith i edrych ar fodelau busnes posib ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden. Nôd y comisiwn oedd darganfod arbedion sylweddol wrth gynnig yr un safon o wasanaeth neu well i drigolion.

2.2 Bu'r Pwyllgor Craffu Cymunedau dderbyn blas o'r opsiynau oedd yn cael eu hystyried ar yr 24ain o Ionawr 2017 ac fe nodwyd y byddent yn croesawu gweld yr achos fusnes yn ddiweddarach ym Medi 2017.

2.2 Dros y misoedd diwethaf mae gwaith wedi ei wneud i adnabod yr opsiynau posib ac asesu'r manteision ac anfanteision o'u gweithredu. Edrychwyd ar yr opsiynau canlynol ar lefel uchel:

2.2.1 Gwneud Dim
2.2.2 Parhau i ddarparu gwasanaethau ein hunain a darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd a/neu incwm
2.2.3 Sefydlu elusen o'r newydd
2.2.4 Sefydlu Cwmni buddiannau cymdeithasol
2.2.5 Sefydlu cymdeithas buddiannau cymdeithasol ('Staff Mutual')
2.2.6 Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor
2.2.7 Sefydlu Cwmni masnachu awdurdod lleol
2.2.8 Proses gaffael agored
2.2.9 Trosglwyddo'r gwasanaeth i gorff arall

2.3 Cafwyd cyngor cyfreithiol ar y modelau a sail y risgiau gweithredol cysylltiedig fe edrychwyd ar 3 model posib mewn mwy o fanylder, sef Gwneud Dim, Proses Gaffael a Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor. Erbyn hyn mae swyddogion o'r farn fod ganddynt wybodaeth ddigonol ynglŷn â'r oblygiadau a risgiau i fedru argymell model i'r dyfodol.


2.4 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi cyfle i aelodau graffu'r argymhelliad i sefydlu Cwmni newydd sydd wedi ei reoli gan y Cyngor a drwy hynny sicrhau parhad y gwasanaeth presennol.

2.5 Bydd gweithredu'r model arfaethedig yn caniatáu'r i'r gwasanaeth gyflawni'r targedau arbedion y bu'r Cyngor ei osod arno nôl yn Rhagfyr 2014 yn ogystal â chyfrannu arbedion pellach i'r Strategaeth Ariannol.

**3 Y sefyllfa bresennol**

3.1 Mae'r Cyngor yn darparu a rheoli 12 Canolfan Hamdden ar draws y Sir gydag oddeutu 17,000 o aelodau a 1.5 miliwn o ymweliadau'r flwyddyn.

Pellter o Ganolfan Hamdden Cyngor Gwynedd



3.2 Mae'r ddarpariaeth bresennol yn golygu fod 27% o boblogaeth Gwynedd yn byw o fewn milltir i Ganolfan Hamdden a bod dim anheddau yn byw mwy nag 18 milltir.


3.3 Mae'r aelodaeth bresennol gyfystyr a thua 14% o boblogaeth Gwynedd.

3.4 O'r 17,000 o aelodau mae 55.4% o'r aelodau yn blant 0 i

16oed, 27% yn Oedolion 24 i 60 oed a 9.3% dros 65oed.

3.5 Mae gwariant gros y gwasanaeth yn bron i £5m y flwyddyn ond fe ddenir £3.1m o incwm drwy ffioedd aelodaeth a mynediad yn bennaf. Mae'r Cyngor felly'n cymorthdalu bron i £1.9m o'r gwasanaeth. Ers 2014/15 mae'r cymhorthdal yma wedi gostwng o £900k sydd gyfystyr a thua 33%.

3.6 Nôl yn Rhagfyr 2014 bu'r Cyngor ofyn i'r gwasanaeth arbed oddeutu £1.05m o arbedion effeithlonrwydd rhwng 2015 a 2018. Fel y blynyddoedd cynt mae'r gwasanaeth wedi ymateb gan geisio sicrhau'r effaith lleiaf posib ar bobl Gwynedd drwy gyflwyno mesurau effeithlonrwydd i leihau costau a chynyddu incwm drwy ddenu aelodau newydd.




3.7 Hyd yma mae'r gwasanaeth wedi adnabod £800k o'r targed £1.05m ond mae darganfod gweddill y swm o fewn yr amserlen a'r model darparu presennol yn profi'n anodd. Os cymeradwyir y cynllun arfaethedig yma bydd y gwasanaeth wedi cyflawni'r targed o £1.05m a bydd arbedion dros ben (oddeutu £400k) ar gael i ofynion y Strategaeth Ariannol bresennol.

## 4 Pam newid?

4.1 Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r achos dros newid yn adlewyrchiad o berfformiad y gwasanaeth, yn hytrach mae'n adlewyrchu'r pwysau ariannol digynsail ar lywodraeth leol ers sawl blwyddyn bellach.

4.2 Mae'r achos dros newid ein model darparu yn seiliedig ar y casgliad na fedr y gwasanaeth ddarganfod yr arbedion angenrheidiol heb orfod cau nifer o ganolfannau hamdden neu gynyddu ffioedd aelodaeth a mynediad ar raddfa sylweddol. Mae gwaith wedi ei wneud felly i asesu os oes model amgen dichonadwy a derbyniol fydda'n gallu cyflawni'r arbedion gan gynnig yr un safon o wasanaeth neu well.

4.3 Bydd aelodau yn ymwybodol fod ein cynllunio ariannol yn rhagweld y bydd y pwysau ariannol yma'n parhau dros y 3 blynedd nesaf gyda hyd yn oed y senario mwyaf optimistaidd yn nodi'r angen i'r Cyngor ddarganfod £11.8m erbyn 2020/21, a'r senario gwaethaf yn nodi £24m. O gofio fod y Cyngor eisoes wedi gwireddu £31m yn y 4 mlynedd diwethaf, gan gynnwys gwerth £5m o

doriadau i wasanaethau, mae'n debyg ei fod yn deg dweud y bydd darganfod mwy o arbedion heb gael effaith ar bobl Gwynedd am fod yn llawer anoddach tro hyn.

4.4 Dros y 3 blynedd diwethaf mae'r gwasanaeth hamdden wedi arbed 33% ar ei wariant net drwy gynyddu incwm, drwy ddenu aelodau newydd a chyflawni cyfres o fesurau effeithlonrwydd i leihau ei wariant.

4.5 Rhaid cadw mewn côf hefyd fod ein stad o gyfleusterau hamdden yn heneiddio; mae rhai o'r adeiladau yn sefyll ers y chwech degau. Mae costau cynnal a chadw yn naturiol am gynyddu ar adeiladau o'r fath ond yn allweddol hefyd yw'r angen i fuddsoddi er mwyn sicrhau fod y cynnig yn parhau yn ddeniadol i drigolion. Os na fyddwn yn cadw fyny gyda newidiadau ac anghenion newydd defnyddwyr mae yna wir beryg na fyddwn yn cyflawni pwrpas y gwasanaeth o fod yn cefnogi ac ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach.

4.6 Yn hyn o beth mae'r gwaith yma'n alinio'n agos gyda'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth i ni geisio adnabod a gweithredu'r model darparu gorau ar gyfer 'sicrhau gwasanaeth modern, addas i bwrpas, cynhwysol a cynaliadwy fydd yn ysbrydoli a chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach'.

4.7 Yn wyneb yr hinsawdd ariannol a'r ansicrwydd mae hynny'n ei greu yng nghyswllt cynaliadwyedd gwasanaethau mae patrwm cynyddol yn y sector gyhoeddus lle mae awdurdodau yn edrych os oes modelau mwy gwydn o ddarparu gwasanaethau. Un o'r prif atyniadau yng nghyswllt gwasanaethau hamdden yw bod rhai cyrff yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi sydd yn ei dro yn rhyddhau arbedion a/neu gyllid i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau.

4.8 Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn talu dros £0.5m y flwyddyn mewn trethi annomestig felly fe fydda trosglwyddo'r ddarpariaeth i gorff sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad o'r trethi hynny yn arwain at arbediad sylweddol yng nghost y gwasanaeth. Yn allweddol hefyd wrth gwrs yw'r damcaniaeth na fydda arbedion o'r fath yn amharu ar lefel a safon y gwasanaeth i drigolion.

4.9 Goblygiadau hynny yw y bydda'r Cyngor yn comisiynu corff arall i ddarparu'r gwasanaeth ar ei ran. Mae'r achos fusnes sydd gerbron wedi asesu union oblygiadau'r gwahanol fathau o fodelau darparu ac wedi eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf canlynol:

1) Gwasanaeth yr un peth neu well am gost is o leiaf £500k erbyn 2019
2) Mynediad haws i ddulliau gwahanol o fuddsoddi
3) Gallu i hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg o fewn y sector chwaraeon a hamdden yng Ngwynedd
4) Defnydd mwy effeithlon o gymhorthdal y Cyngor yn erbyn amcanion gwario

5) Hyblygrwydd i addasu i gwrdd â heriau newydd

6) Uchafu cyfraniad tuag at amcanion strategol y Cyngor.

**5 Crynodeb o'r gwerthusiad**

5.1 Mae atodiadau'r achos fusnes yn manylu ar yr opsiynau gafodd ystyriaeth fel rhan o'r achos fusnes.

5.2 Yn dilyn gwaith cychwynnol daethpwyd i'r casgliad y dylid canolbwyntio ar ddatblygu a gwirio'r achos dros sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor ac i feincnodi'r opsiwn yno yn erbyn yr opsiwn o barhau gyda'r drefn fewnol neu opsiwn o gaffael darparwr allanol ar gyfer y gwasanaeth ("allanoli").

5.3 Seliwyd y casgliad cychwynnol yma ar y sail mai rhain oedd yr opsiynau oedd yn cwrdd â'r meini prawf a bod swyddogion felly yn canolbwyntio eu hamser ar yr opsiynau oedd fwyaf tebygol o gyflawni'r amcanion.

5.4 Nid yw mor ddu a gwyn i ddweud y bydd un model yn cynnig gwasanaeth gwell neu waeth i drigolion ond mae'n deg dweud y bydd rhai modelau yn gweddu'n well na'i gilydd o ran blaenoriaethau, polisïau, strategaethau ac egwyddorion y Cyngor. Enghraifft syml o hynny yw'r opsiwn o allanoli i'r sector breifat a'r tebygolrwydd y bydda ethos masnachol ac ariannol yn gallu dod ar draul rai o amcanion cymdeithasol. Er enghraifft, fe fydda yna ddisgwyliad naturiol, ar ryw bwynt, i unrhyw weddill ariannol gael ei ddyrannu fel elw preifat yn hytrach nag i'r gymdeithas leol.

5.5 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwerthusiad opsiynau:

| MEINI PRAWF | MODELAU POSIB | | |
|---|---|---|---|
| | OPSIWN 1: MEWNOL | OPSIWN 5: PROSES GAFFAEL AGORED | OPSIWN 6: CWMNI WEDI EI REOLI |
| Gwasanaeth yr un peth neu well am gost is | [AMBR] | [GWYRDD] | [GWYRDD] |
| Mynediad haws i ddulliau gwahanol o fuddsoddi | [COCH] | [GWYRDD] | [COCH] |
| Gallu i hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg o fewn y sector chwaraeon a hamdden yng Ngwynedd | [GWYRDD] | [AMBR] | [GWYRDD] |
| Defnydd mwy effeithlon o gymhorthdal y Cyngor yn erbyn amcanion gwario | [AMBR] | [GWYRDD] | [GWYRDD] |
| Hyblygrwydd i addasu i gwrdd â heriau newydd | [AMBR] | [GWYRDD] | [AMBR] |
| Uchafu cyfraniad tuag at amcanion strategol y Cyngor. | [GWYRDD] | [AMBR] | [AMBR] |

**ALLWEDD:** GWYRDD = CYFLAWNI, AMBR = CYFLAWNI'N RHANNOL, COCH = DDIM YN CYFLAWNI

5.6 Mae’r gwerthusiad opsiynau o fewn yr achos busnes yn dod i’r casgliad na fedr y gwasanaeth gyflawni’r arbedion angenrheidiol wrth aros yn fewnol (Opsiwn 1) heb edrych i gau rhai canolfannau neu gynyddu ffioedd am y gwasanaeth ar raddfa sylweddol (~20% drosodd) fydda’n gallu amharu ar ddefnydd.

5.7 Yr opsiwn o allanoli (Opsiwn 5) sydd fwyaf tebygol o gyflawni’r arbedion mwyaf, a hynny ar y rhagdybiaeth fod yna ddiddordeb yn y farchnad i ddarparu yng Ngwynedd. Fe fydda mwyafrif o’r arbedion yn debygol o darddu o eithriadau trethi ond gellir disgwyl ymgyrchoedd mwy caled i gynyddu incwm a lleihau gwariant hefyd.

5.8 Fodd bynnag, yr opsiwn o allanoli sy’n golygu’r newid mwyaf ac fe fydda rheolaeth y Cyngor yn sylweddol llai o gymharu â’r opsiynau eraill. Er ein bod yn rhagfarnu'r darparwyr posib i raddau mae yna fwy o risg diwylliannol ynghlwm a’r cyfeiriad yma, yn bennaf yng nghyswllt yr iaith Gymraeg ac i rai o bolisïau ac egwyddorion eraill y Cyngor.

5.9 O’r opsiynau i gyd felly sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor (Opsiwn 6) yw’r newid lleiaf. Mae’r opsiwn yma’n cynnig cyfle i gyflawni arbedion trethiannol oddeutu £585k yn y flwyddyn gyntaf o weithredu wrth gadw hunaniaeth, diwylliant ac egwyddorion craidd presennol.

5.10 Y Cyngor fyddai berchen ar y Cwmni cyngor a rheolir y Cwmni gan Fwrdd Rheoli wedi ei benodi gan y Cyngor; yn y tymor byr ni ddylai defnyddwyr a thrigolion weld gwahaniaeth yn y ddarpariaeth ond, i’r dyfodol, y nod naturiol fydda i ddatblygu ac i wella’r gwasanaeth yn barhaus.

5.11 Amcangyfrifir y bydd modd cyflawni arbedion net blynyddol o £585k ond fod angen clustnodi rhwng £160k hyd at £240k unwaith ac am byth er mwyn sefydlu’r Cwmni dros gyfnod o 9 mis.

5.12 Gan gymryd na fyddai’r Cyngor yn dymuno cau canolfannau hamdden a thorri’r gwasanaeth nid yw aros yn fewnol yn opsiwn hyfyw i’r dyfodol. O’r modelau amgen sydd ar gael yr opsiwn o greu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor sy’n taro balans orau o ran cyflawni’r arbedion angenrheidiol a chadw hunaniaeth bresennol y gwasanaeth.

## 6 Amlinelliad o sut byddai Cwmni wedi ei reoli yn edrych a gweithio

### 6.1 Ffurf y Cwmni

6.1.1 Bwriedir i’r Cwmni fod yn Gwmni cyfyngedig drwy warant gyda’r Cyngor yn berchennog llawn arno (h.y. yr unig gyfranddaliwr).

6.1.2 Bydd y Cyngor yn creu cyfansoddiad y Cwmni fydd yn seiliedig ar bwrpas dyngarol ac nid ar gyfer elw.

6.1.3 Bydd y Cyngor hefyd yn penodi Bwrdd o Gyfarwyddwyr (ar sail wirfoddol) fydd yn gyfrifol am gyflawni oddi fewn i gyfansoddiad y Cwmni. Bydd 5 i 7 o gyfarwyddwyr ar y bwrdd; sy'n debygol o fod yn gyfuniad o aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor.

6.1.4 Mae modd ychwanegu haenau llywodraethu oddi fewn y Cwmni syn gallu cynnwys Bwrdd cynghorol neu fwrdd budd-ddeiliaid eraill er enghraifft.

6.1.5 Bydd y Bwrdd o Gyfarwyddwyr yn penodi a chyflogi Rheolwr Gyfarwyddwr i'r Cwmni; y person yno fydd yn gyfrifol am reolaeth dydd i ddydd o'r Cwmni.

**6.2 Rheolaeth y Cyngor dros y Cwmni**

6.2.1 Bydd y Cyngor yn comisiynu gwasanaeth drwy gytundeb gwasanaeth fydd yn manylu ar yr union wasanaethau a deilliannau sydd angen i'r Cwmni yno ei gyflawni am ffi benodol (sef swm tebyg i'r gwariant net presennol llai'r arbedion sydd wedi'u hadnabod). Bydd y cytundeb yma yn cyfarch disgwyliadau'r Cyngor o safbwynt y gwasanaeth fydd yn cael ei gomisiynu ac yn manylu ar faterion megis:

i) Y taliad a wneir i'r Cwmni am ddarparu'r gwasanaeth
ii) Isafswm darpariaeth gwasanaeth
iii) Strwythur ffioedd
iv) Polisi Iaith
v) Lefel Perfformiad
vi) Gofynion Ansawdd

6.2.2 Bydd y Cyngor hefyd yn lesu y canolfannau hamdden i'r Cwmni ddarparu gwasanaethau. Bydd y les yno hefyd yn manylu ar gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cwmni yng nghyswllt defnydd yr adeiladau gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau neu eithriadau.

6.2.3 Yn unol â'r achos fusnes, y bwriad fyddai cytundebu ar sail 10 mlynedd. Bydd y cytundeb hwnnw yn cynnwys mecanwaith penodol ar gyfer delio ag unrhyw newidiadau, foed hynny yng nghyswllt newid mewn gwasanaeth neu werth y cytundeb er enghraifft, ac wrth gwrs y gallu i derfynu'r cytundeb ynghynt.

6.2.4 Y Cyngor fydd yn ffurfio cyfansoddiad y Cwmni sy'n manylu ar y rheolau ar gyfer rhedeg y Cwmni. Bydd rheolaeth weithredol y Cwmni yn nwylo'r cyfarwyddwyr fydd â dyletswyddau at y Cwmni yn unol â Deddf Cwmnïau. Fodd bynnag fel y nodir uchod yn ogystal â'r rôl cyfranddaliwr bydd y cytundeb darparu hefyd yn sicrhau fod gan y Cyngor reolaeth dros y gwasanaeth fydd yn cael ei ddarparu.

6.2.5 Bydd gofyn i'r Cwmni hefyd adrodd ar ei berfformiad i'r Cyngor, yn debyg iawn i adran o'r Cyngor. Yn ogystal bydd y Cyngor yn cymeradwyo cynllun busnes blynyddol y Cwmni, sy'n manylu ar weithgareddau, datblygiadau a deilliannau'r flwyddyn neu flynyddoedd i ddod.

6.2.6 Ar ei eithaf fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau gyda rheolaeth derfynol gan y gellir penodi neu gael gwared â'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr a/neu newid cyfansoddiad y Cwmni os oes angen.

**6.3 Effaith ar wasanaethau a defnyddwyr**

6.3.1 Bydd y Cyngor yn gofyn i'r Cwmni ddarparu'r un gwasanaeth ac sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd oni bai fod y Cwmni yn gallu adnabod unrhyw welliannau i'r ddarpariaeth bresennol.

6.3.2 Yn ei hanfod ni ddylai defnyddwyr weld fawr o wahaniaeth yn y tymor byr yn sicr.

**6.4 Effaith ar y gweithlu**

6.4.1 Bydd staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn trosglwyddo i gyflogaeth y Cwmni ac mi fyddent yn derbyn yr un amodau a thelerau maent yn cael ar hyn o bryd. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw staff sy'n cefnogi'r gwasanaeth o'r gwasanaethau canolog yn trosglwyddo.

6.4.2 Bydd rheoliadau TUPE yn gwarchod amodau a thelerau'r gweithlu a ni fedr y Cwmni newid yr amodau a thelerau hynny yn sgil y trosglwyddiad. I alluogi hynny bydd gofyn i'r Cwmni ddod yn aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol, gan y bydd angen sicrhau cynllun pensiwn cymharol i'r un presennol ar gyfer y staff sy'n trosglwyddo drwy TUPE.

6.4.3 Yng nghyswllt unrhyw benodiadau newydd fydd y Cwmni yn ei wneud yn y dyfodol mae Côd Ymddygiad ar Faterion y Gweithlu 2014 gan Lywodraeth Cymru yn golygu y dylai'r Cwmni sicrhau nad ydy'r gweithwyr newydd, yn gyffredinol, yn derbyn amodau a thelerau llai ffafriol na'r gweithlu sydd wedi trosglwyddo.

6.4.4 Ers penderfyniad y Cabinet i edrych ar y maes yma mae newyddlenni rheolaidd a chyfres o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda staff a'r Undebau Llafur er mwyn rhannu gwybodaeth ac ateb unrhyw gwestiynau. Braf yw adrodd fod y cyfarfodydd hyd yma wedi bod yn bositif gydag ymagwedd agored a chefnogol i'r argymhelliad o sefydlu Cwmni.

**6.5 Goblygiadau Caffael**

6.5.1 Mae'r achos fusnes wedi ei seilio ar Gwmni sydd wedi ei reoli gan y Cyngor ac sydd hefyd yn cyfarfod meini prawf eithriad Teckal. Deillia'r eithriad "Teckal" o achosion Ewrop sydd bellach wedi ei sefydlu o fewn deddfwriaeth sydd yn golygu, yn ddarostyngedig i feini prawf penodol y gall y Cyngor osod cytundeb gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r Cwmni heb orfod mynd drwy broses gaffael allanol.

6.5.2 Mae dwy prif ran i'r meini prawf; bydda rhaid i reolaeth y Cyngor ar y Cwmni fod yn gyffelyb i'r rheolaeth sydd ganddo dros un o'i adrannau a bod o leiaf 80% o fasnach y Cwmni yn dod gan y Cyngor. Mae'r opsiwn a argymhellir yn cyrraedd y gofyn yma.

**6.6 Goblygiadau Ariannol a Threthiannol**

6.6.1 Mae'r arbedion o'r model yma yn tarddu o ryddhad o drethi annomestig ac eithriadau treth ar werth; mae'r eithriadau yma ar gael i gyrff sydd â phwrpas dyngarol ac nid ar gyfer elw. Ar hyn o bryd nid yw awdurdodau lleol yn gymwys.

6.6.2 Bydd y Cyngor yn cyflawni'r arbedion hynny drwy addasu gwerth y cytundeb gyda'r Cwmni i adlewyrchu'r arbedion rheini, ond bydd cymalau ar gyfer delio gydag unrhyw newidiadau i'r cytundeb. Amcangyfrifir y bydd y cost net yn lleihau o £1.869m i £1.282m erbyn 2019/20.

6.6.3 Ni fydda'r Cyngor yn trosglwyddo unrhyw risg cyfalaf ariannol sylweddol fel rhan o'r cytundeb neu'r prydlesau ac mi fydd unrhyw risg refeniw yn gyfyngedig, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Bydd y cytundeb yn manylu ar hyn.

6.6.4 Yng nghyswllt mynediad i ffynonellau incwm newydd yna mae hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig i unrhyw incwm ychwanegol y gellir ei ddenu oddi fewn i amodau Teckal. Ymhellach, mae'n debygol mai'r dull gorau o fenthyg fydda drwy'r Cyngor gan na fydd y Cwmni yn berchen ei asedau.

6.6.5 Bydd costau unwaith ac am byth ynghlwm a sefydlu Cwmni. Costau cyfreithiol yw'r rhain yn bennaf ar gyfer sefydlu cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu'r Cwmni, paratoi'r cytundebau gwasanaeth a phrydlesau, proses TUPE ayyb. Amcangyfrifir y gall y costau unwaith ac am byth hynny fod rhwng £170k a £240k ond bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw costau i'r isafswm posib.

6.6.6 Yn sgil ail-strwythuro diweddar gall yr adran gyfrannu £50k tuag at gostau sefydlu'r Cwmni yn ogystal â chyfarch cynnydd yng nghostau rhedeg newydd y Cwmni o £49k.

6.6.7 Drwy weithredu bydd yr adran yn cyflawni'r arbedion o £150k sy'n weddill o'r targedau y bu'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo nôl yn Rhagfyr 2014. Bydd hynny'n gadael cyfraniad arbedion o £435k i'r Strategaeth Ariannol a'r rhagdybiaeth benodol o £526k oedd i'w ddeillio o weithredu model amgen.

6.6.8 Rhagwelir y proffil arbedion blynyddol canlynol:

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Proffil Arbedion Net Parhaol | £0 | £146,804 | £440,411 | £0 | £587,214 |

6.6.9 Rhagwelir arbedion cronnus canlynol (sef ar ôl ystyried costau sefydlu):

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Arbedion Net Cronnus | -£80,000 | -£105,447 | £432,768 | £970,982 | £1,509,196 |

**6.7 Goblygiadau Eiddo**

6.7.1 Byddai'r Cyngor yn lesu'r adeiladau yn unol â hyd y cytundeb gwasanaeth am ffi 'peppercorn'. Bydd y les yn manylu ar gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cwmni gan gynnwys er enghraifft ymrwymiadau buddsoddi a gofynion perfformiad ar y naill ochr. Ar ddiwedd y cytundeb bydd unrhyw eiddo gan gynnwys offer yn dychwelyd yn ôl i'r Cyngor.

6.7.2 Bydd mwyafrif o gyfrifoldebau am gynnal yr adeiladau yn parhau i aros gyda'r Cyngor oherwydd rhesymau trethiannol ac oblygiadau eraill.

**6.8 Effaith ar wasanaethau cefnogol a chanolog**

6.8.1 Bydd disgwyl i'r Cwmni brynu gwasanaethau canolog yn ôl gan y Cyngor; mae hynny ar y sail fod y costau canolog yn sefydlog ac na fydd y trosglwyddiad yma o faint ddigonol i allu gwireddu arbedion i'r Cyngor.

6.8.2 Bydd y gwasanaethau yn cael eu darparu drwy gytundeb gwasanaeth fydd yn nodi amodau'r gwasanaethau hynny.

**6.9 Diwylliant**

6.9.1 Un o atyniadau'r model arfaethedig yw ei fod yn caniatáu i ni gadw hunaniaeth bresennol a'r hyn mae pobl Gwynedd yn ei werthfawrogi am y gwasanaethau.

6.9.2 Mi fydd y Cwmni yn annibynnol i'r Cyngor a bydd y Cyngor yn dirprwyo rheolaeth weithredol i'r Cwmni. Bydd gofyn i'r Bwrdd warchod a hyrwyddo diddordebau'r Cwmni a gall hynny olygu y bydd yn cymryd safbwynt mwy masnachol ar rhai agweddau o'r busnes. Mae hyn yn grymuso'r Cwmni i gyflawni'r deilliannau penodedig fel mae'n gweld orau ond mae'r model arfaethedig yn darparu tryloywder ac elfen o reolaeth i'r Cyngor o ran sut caiff y deilliannau hynny eu cyflawni.

**7 Asesiad Cydraddoldeb**

7.1 Wrth werthuso'r opsiynau fe roddwyd ystyriaeth i berthnasedd ac effaith yr opsiwn ar ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig).

7.2 Gellir gweld yr asesiad cydraddoldeb llawn yn Atodiad 1. Nod y cynllun arfaethedig yma yw 'Sicrhau gwasanaeth modern, addas i bwrpas, cynhwysol a chynaliadwy fydd yn ysgogi a chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach' ac mae'r model arfaethedig yn cynnig pob cyfle i wneud hynny.

7.3 Os cymeradwyir yr argymhelliad bydd gofyn ail-ymweld â'r asesiad i wirio unrhyw gasgliadau neu ragdybiaethau â wnaed a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddf.

**8 Amserlen Gweithredu arfaethedig**

8.1 Ar y 3ydd o Hydref bydd yr adroddiad yma a'r achos fusnes yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet gyda sylwadau'r Pwyllgor Craffu yn cael eu hadrodd er ystyriaeth. Gofynnir i'r Cabinet ystyried cymeradwyo'r achos fusnes ac argymell i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo ar y 5ed o Hydref. Bydd gofyn i'r Cabinet hefyd gymeradwyo buddsoddiad o £165k o'r Gronfa Trawsnewid er mwyn sefydlu'r Cwmni.

8.2 Os cymeradwyir yr argymhelliad yma ym mis Hydref eleni gall fod y Cwmni newydd yn weithredol yn ystod Chwarter 3 o 2018/19.

8.3 O fis Hydref ymlaen bydd gwaith yn cychwyn i greu'r ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol, datblygu a dilysu cyfrifon i'r Cwmni a chynhyrchu cynllun busnes. Cyn i'r Cwmni fod yn weithredol a bod staff yn trosglwyddo bydd gofyn i'r Cwmni gyflwyno ei gynllun busnes ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor.

**9 . Cyfreithiol**

9.1 Mae'r hawl i sefydlu'r Cwmni yn deillio o bŵer llesiant yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 adran 2(1) sy'n caniatáu i'r Cyngor ffurfio Cwmni os yw o'r farn fod hyn yn debygol o gyflawni hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal.

9.2 Yn yr atodiadau amgaeedig, mae'r ymgynghorwyr allanol yn cyfeirio at achos llys oedd yn derbyn gwrandawiad ar y pryd. Mae'r dyfarniad yn yr achos *'London Borough of Ealing -v- HMRC'* bellach wedi ei gyhoeddi gan Lys Cyfiawnder Ewrop. Nid yw'n glir ar hyn o bryd, sut bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn ymdrin â'r penderfyniad yng nghyd-destun y darganfyddiadau a / neu apeliadau TAW ac felly, sut bydd hynny yn cael effaith ar y sefyllfa TAW. O ganlyniad, bydd angen i Swyddogion adolygu'r sefyllfa a chomisiynu gwaith pellach er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor yr arweiniad gorau ar y mater. Fodd bynnag, yn sgil y cyd-destun ariannol ehangach nid yw'r sefyllfa bresennol yn cyfiawnhau peidio parhau gyda'r argymhellion.

**10 Casgliadau ac argymhellion**

10.1 Mae'r gwaith yma wedi amlygu graddfa'r arbedion ariannol mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf gan sicrhau'r effaith lleiaf posib ar drigolion Gwynedd.

10.2 Un o brif gasgliadau'r gwaith yma yw na fedr y gwasanaeth yma ddarganfod rhagor o'r arbedion angenrheidiol heb drosglwyddo'r ddarpariaeth neu cau sawl Canolfan.

10.3 O'r opsiynau sydd ar gael, sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor yw'r opsiwn sy'n taro balans orau o ran cyflawni arbedion a chadw diwylliant ac egwyddorion presennol. Mae'r opsiwn yma hefyd yn caniatáu fod rheolaeth a dylanwad y Cyngor yn parhau'n gryf o fewn y sector allweddol yma.

10.4 Bwriedir felly argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r achos fusnes a'r buddsoddiad cysylltiedig ac argymell fod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor.

**11 Atodiadau –**

11.1 Atodiad 1 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb

11.2 Atodiad 2- DOGFEN EITHRIEDIG– Prif Adroddiad ac atodiadau

**12 Dogfennau Cefndirol**

12.1 Pŵer Cyffredinol i Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Tan ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i Fasnachu Mewn Gweithgareddau Perthnasol i'w Swyddogaethau. Llywodraeth Cymru 2003

**Atodiad 1**

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

**1 Manylion**

**1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?**

| |
|---|
| Model Darparu Hamdden |

**1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?**

Nod y cynllun arfaethedig yw gweithredu'r model darparu gorau i 'Sicrhau gwasanaeth, modern, addas i bwrpas, cynhwysol a chynaliadwy fydd yn ysbrydoli a chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach'.

Y prif amcan yw gwireddu arbedion ariannol gan gynnig yr un ystod o wasanaethau i'r un safon neu well. Mae'r modelau isod wedi'u hystyried o fewn yr achos fusnes:

2.2.1 Gwneud Dim

2.2.2 Parhau i ddarparu gwasanaethau ein hunain a darganfod fwy o effeithlonrwydd a/neu incwm

2.2.3 Sefydlu elusen o'r newydd

2.2.4 Sefydlu Cwmni buddiannau cymdeithasol

2.2.5 Sefydlu cymdeithas buddiannau cymdeithasol ('Staff Mutual')

2.2.6 Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor

2.2.7 Sefydlu Cwmni masnachu awdurdod lleol

2.2.8 Proses gaffael agored

2.2.9 Trosglwyddo'r gwasanaeth i gorff arall

Bydd effaith ar wasanaeth a defnyddwyr yn rhan o feini prawf y gwerthusiad o fodelau busnes. Os bydd penderfyniad i weithredu model amgen bydd yn rhannol seiliedig ar yr angen i sicrhau na fydd effaith negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, mae elfen o risg yn perthyn i unrhyw sefyllfa o drosglwyddo cyfrifoldeb a bydd gwerthusiad o'r risgiau rheini hefyd yn ffurfio rhan o'r broses gwerthuso opsiynau. Mae'n debygol felly y bydd angen ail-ymweld a'r asesiad yma yn ystod ac ar ddiwedd y broses gwerthuso ac os mai'r casgliad yw gweithredu model amgen.

Mewn sefyllfa o drosglwyddo bydd effaith ar staff y gwasanaeth yn yr ystyr y bydd eu cyflogaeth a'u hamodau a thelerau yn trosglwyddo i gorff newydd. Bydd rheoliadau TUPE (Transfer of Undertakings (Protection of Employment) )yn cynnig gwarchodaeth i amodau a thelerau staff. Unwaith eto fodd bynnag mae risg o newid yn perthyn i unrhyw drosglwyddiad o gyfrifoldeb ond rhagwelir mai isel yw'r risg hwnnw ar hyn o bryd.

**1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Robin Evans, Rheolwr Prosiect

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

24/05/17, fersiwn cyntaf

**2) Gweithredu**

**2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Defnyddwyr gwasanaeth
Defnyddwyr gwasanaeth posib
Y gweithlu
Aelodau etholedig

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?**

**Yn bresennol**

Ni ragwelir effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth ond mi fyddai'n briodol ail- ymweld â'r angen yma ar ddiwedd y broses gwerthuso opsiynau i wirio unrhyw gasgliadau neu ragdybiaethau a wnaed. Gan na ragwelir effaith ni ystyrir yn briodol ymgynghori a'r cyhoedd.

Ers cyhoeddi'r bwriad i edrych ar y maes yma mae'r Uwch Reolwr wedi rhyddhau 2 newyddlen sy'n briffio staff ar y bwriad, y rhesymau dros ystyried newid a'r goblygiadau posib yn sgil unrhyw newid. Mae'r newyddlen yno'n gwahodd cwestiynau neu sylwadau gan staff ond ni dderbyniwyd dim hyd yma.

Mae'r Uwch Rheolwr hefyd wedi ymweld â'r Canolfannau Hamdden i gyd er mwyn cyfarfod y staff ac i amlinellu'r cynllun arfaethedig. Yn gyffredinol ni dderbyniwyd llawer o ymateb gyda'r unig gwestiynau yn ymwneud a pharhad cyflogaeth.

Mae bwriad i barhau gyda'r trefniadau ymgysylltu yn unol ag amseriad cherrig milltir allweddol yn ystod y cyfnod gwerthuso a phroses penderfynu.

Mae'r newyddlen wedi ei rannu gyda'r Undebau Llafur ac mae gwahoddiad agored am gyfarfod briffio agoriadol. Hyd yma mae cyfarfod wedi ei gynnal gydag un o'r undebau gyda cytundeb i barhau gyda'r diweddariadau yn ystod y cyfnod gwerthuso a phroses penderfynu.

**Yn flaenorol**

Casglwyd tystiolaeth fel rhan o ymgynghoriad Her Gwynedd

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Dim cwestiynau wedi eu derbyn hyd yma gan staff.<br><br>Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod Her Gwynedd yn cyfleu pwysigrwydd y gwasanaeth i drigolion. Ar hyn o bryd fodd bynnag ni ragwelir effaith ar ddefnyddwyr a staff. |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**


Mae'r Cyngor yn darparu a rheoli 12 Canolfan Hamdden ar draws y Sir gydag oddeutu 17,000 o aelodau a 1.5 miliwn o ymweliadau'r flwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth bresennol yn golygu fod 27% o boblogaeth Gwynedd yn byw o fewn milltir i Ganolfan Hamdden a bod dim anheddau yn byw mwy nag 18 milltir.

Mae'r aelodaeth bresennol gyfystyr a thua 14% o boblogaeth Gwynedd.

O'r 17,000 o aelodau mae 55.4% o'r aelodau yn blant 0 i 16oed, 27% yn Oedolion 24 i 60 oed a 9.3% dros 65oed.

Pellter o Ganolfan Hamdden Cyngor Gwynedd




Mae'r gwriant gros y gwasanaeth hamdden yn bron i £5m y flwyddyn ond fe ddenir £3.1m o incwm drwy ffioedd aelodaeth a mynediad yn bennaf. Mae'r Cyngor felly'n cymorthdalu bron i £1.9m o'r gwasanaeth hamdden. Ers 2014/15 mae'r cymhorthdal yma wedi gostwng o £900k sydd gyfystyr a thua 33%.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Bydd gofyn ail-ymweld a'r angen i ganfod fwy o dystiolaeth ar ddiwedd y broses werthuso a chyn unrhyw benderfyniad i weithredu. |

**3) Adnabod yr Effaith**

**3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** (dylech ddileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw newid i'r gwasanaeth fydd yn cael ei gynnig. Bydd y Cyngor yn sicrhau, pe byddwn yn penderfynu ar |

| | | |
|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | fodel amgen, y bydd anghenion gwahanol nodweddion yn cael yr un ystyriaeth ac maent yn gael yn bresennol. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effaith felly ar bobl gyda nodweddion penodol. Wedi dweud hynny, os bydd effaith yn cael ei amlygu ar un rhyw bwynt wrth ddatblygu'r cynllun, byddwn yn ail ymweld â'r asesiad yma. |
| **Anabledd** | Dim | |
| **Rhyw** | Dim | |
| **Oedran** | Dim | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | |

**3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn ateb y Dyletswyddau Cyffredinol yma?**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Dylid dileu'r rhai amherthnasol** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw newid i'r gwasanaeth fydd yn cael ei gynnig. Bydd y Cyngor yn sicrhau, pe byddwn yn penderfynu ar fodel amgen, y bydd anghenion gwahanol nodweddion yn cael yr un ystyriaeth ac maent yn cael yn bresennol. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effaith felly ar ddyletswyddau'r Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Wedi dweud hynny, os bydd effaith yn cael ei amlygu ar un rhyw bwynt wrth ddatblygu'r cynllun, byddwn yn ail ymweld â'r asesiad yma. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | |

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Dim effaith wedi ei adnabod ar hyn o bryd |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Dim effaith wedi ei adnabod ar hyn o bryd |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol ar hyn o bryd |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol ar hyn o bryd |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Ar hyn o bryd yr angen yw diweddaru'r asesiad yma yn ôl y galw. |

# Eitem 6

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Adroddiad ar ganlyniadau'r haf 2017 |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 26 Medi 2017 |
| **Swyddog Perthnasol** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Gareth Thomas |

**Rhagarweiniad**

Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth gynnar i aelodau etholedig ar berfformiad diwedd cyfnodau allweddol y flwyddyn addysgol 2016/2017. Pwysleisir mai gwybodaeth gychwynnol am ganlyniadau CA4 sy'n cael eu rhannu ac nad oes mynediad, hyd yma, at ddata cymharol a meincnodol ar gyfer pob cyfnod allweddol. Bwriedir diweddaru'r isod pan ddaw'r wybodaeth gyflawn i law. Mae angen gofal felly wrth ystyried y wybodaeth gan na fydd y dadansoddiadau na'r cymariaethau yn cael eu cwblhau ar lefel genedlaethol tan tua throad y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae cael mynediad buan i'r math o wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad, a'r cyfle i holi cwestiynau pellach, yn gyfraniad pwysig at y broses hunan arfarnu ac i allu ateb y math o gwestiynau a restrir isod:

- Sut mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu gyda pherfformiad 2016?
- Sut mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu gyda'r targedau a bennwyd ar gyfer 2017?
- A yw perfformiad yn y pynciau craidd yn debyg?
- Ym mha gyfnod allweddol mae'r perfformiad ar ei orau? Ym mha agweddau y mae angen gwelliannau?

Gofynnir i Aelodau Etholedig graffu ar gynnwys yr adroddiad er mwyn gallu ateb y math o gwestiynau a nodir uchod.

**Gwybodaeth gyd-destunol**

Mae Tabl 1 yn dangos % disgyblion oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yng Ngwynedd dros y pum mlynedd diwethaf mewn cymhariaeth â Chymru.

**Tabl 1**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **13.7%** | **12.9%** | **13.3%** | **13.0%** | **12.4%** |
| Cymru | 19.5% | 19.1% | 18.8% | 18.4% | 17.8% |
| Safle Gwynedd (1 = % PYD isaf) | 5 | 4 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r safle yn dynodi lleoliad Gwynedd mewn cymhariaeth â Chymru, gyda'r safle isaf yn dynodi'r ganran isaf o ddisgyblion 5-15 oed sydd â hawl i PYD. Awgryma'r tabl, os derbynnir bod hawl i

brydau ysgol am ddim yn fesur priodol o amddifadedd, y dylai perfformiad Gwynedd fod yn oddeutu pedwerydd o awdurdodau Cymru h.y. yn cyfateb i'r safle prydau ysgol am ddim.

**Sylwebaeth ar berfformiad Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2**

***Cyfnod Sylfaen***

**Tabl 2**
Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)

| | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | **86.8%** | **86.8%** | **86.6%** |
| Cymru | 86.8% | 87.0% | 87.3% |
| Safle (disgwyliedig = 4) | 11 | 14 | 15 |

- Cafwyd gostyngiad bychan o -0.2% yn y perfformiad DCS o'i gymharu â 2016 i 86.6%. Roedd hyn yn gosod Gwynedd yn safle 15 allan o'r 22 awdurdod, 1 safle'n is na'r llynedd ac yn 11 sylweddol is na'r safle PYD disgwyliedig cenedlaethol. Gwelwyd cynnydd o +0.8% yn rhanbarthol a +0.3% yn genedlaethol.

- Mae'r perfformiad yn siomedig yng ngoleuni'r canlyniadau rhanbarthol a chenedlaethol. Rhoddwyd mewnbwn ar gyfer gwella perfformiad yn ystod 2016-17 trwy hyfforddiant ar sicrhau gweithgareddau heriol yn ardaloedd y CS. Rhoddwyd arweiniad hefyd ar asesu yn y CS i bob ysgol.

- Nid yw dylanwad yr arweiniad hwn yn ymddangos mor ddylanwadol yn y CS ag y bu yn CA2.

- Mewn cymhariaeth ag ALl eraill y gogledd roedd safle Gwynedd fel a ganlyn: DCS: 3ydd; Iaith-Cymraeg D5+: 5ed; Iaith-Cymraeg D6+: 1af; Datblygiad Mathemategol D5: 3ydd; Datblygiad Mathemategol D6+: 3ydd; Datblygiad Personol D5+: 2il; Datblygiad Personol D6+: 1af.

- Mewn cymhariaeth â'r awdurdodau cenedlaethol roedd perfformiad D5+ fel a ganlyn: Iaith-Cymraeg: 19; Datblygiad Mathemategol: 13; Datblygiad Personol: 7

- Roedd perfformiad D6+ yn genedlaethol yn gosod Gwynedd fel a ganlyn: safle 7 ar gyfer Iaith-Cymraeg; safle 10 ar gyfer Datblygiad Mathemategol a safle 3 ar gyfer Datblygiad Personol.

- Mae perfformiad dysgwyr PYD yn amrywiol. Yn dilyn tair blynedd o gynnydd graddol gwelwyd gostyngiad o 2.5% ar ffigwr 2016 i lawr i 74.0%. (DCS)

- Roedd y perfformiad yn erbyn targedau (heriol) DCS ac iaith yn siomedig. Perfformiad yn erbyn rhagamcanion terfynol ychydig yn well.

Dengys y tabl isod berfformiad y Cyfnod Sylfaen yn erbyn awdurdodau'r rhanbarth:

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 85.8 | 84.6 | 86.2 | 84.7 | 85.8 |
| **Gwynedd** | **82.8** | **85.5** | **86.8** | **86.8** | **86.6** |
| Conwy | 80.4 | 84.5 | 82.9 | 83.9 | 84.0 |
| Dinbych | 84.9 | 86.1 | 86.4 | 87.5 | 85.3 |
| Fflint | 84.4 | 84.5 | 87.0 | 86.9 | 89.5 |
| Wrecsam | 83.4 | 82.9 | 85.5 | 86.6 | 88.4 |

***Cyfnod Allweddol 2***

**Tabl 3**

Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd CA2

| | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 89.5% | 89.8% | 92.1% |
| Cymru | 87.7% | 88.6% | 89.5% |
| Safle (disgwyliedig = 4) | 6 | 7 | 3 |

- Perfformiad da iawn. Gwelwyd cynnydd o arwyddocaol 2.3% ar ganlyniad 2016 sy'n gosod Gwynedd yn uwch na'r safle PYD disgwyliedig (3ydd allan o 22). Roedd y perfformiad 1.3% yn uwch na'r targed lleol. Gwelwyd cynnydd o +1.6% i 90.4% yn rhanbarthol a +0.9% yn genedlaethol.

- Ar y lefel disgwyliedig (L4+) gwelwyd y perfformiadau gorau erioed ar draws y pynciau; pob un dros 91%. Roedd y safleoedd yn genedlaethol fel a ganlyn Cymraeg 12, Saesneg 3, mathemateg 3 a gwyddoniaeth 6.

- Dosbarthwyd canllaw asesu i holl ysgolion y rhanbarth yn Ionawr 2017 ac fe deimlir fod ymateb ysgolion yn eu defnydd o hwnnw wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar yr asesiadau a sicrhau gwell cysondeb.

- Mewn cymhariaeth ag ALl eraill y gogledd roedd safle Gwynedd fel a ganlyn : DPC = 1af; Cymraeg L4+ = 3ydd; Cymraeg L5+ = 1af; Saesneg L4+ = 1af; Saesneg L5+ = 1af; Mathemateg L4+ = 1af; Mathemateg L5+ = 1af; Gwyddoniaeth L4+ =1af; Gwyddoniaeth L5+ = 1af.

- Roedd perfformiad L5+ yn genedlaethol fel a ganlyn: Cymraeg 9fed, Saesneg 5ed, mathemateg 4ydd, gwyddoniaeth 4ydd. (Y perfformiadau canrannol uchaf a gafwyd).

- Perfformiad dysgwyr PYD yn gadarn iawn ar y lefelau disgwyliedig ac uwch. (Perfformiad hanesyddol gorau - cynnydd o 3.1% ar ganlyniad DPC 2016).

- Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD o'i gymharu â dim PYD yn parhau i leihau. Mae i lawr i -7.9% yn y DPC, y gwahaniaeth lleiaf yn y rhanbarth.


Dengys tabl isod berfformiad CA2 yn erbyn awdurdodau'r rhanbarth:


**CA2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 88.0 | 87.8 | 91.8 | 89.4 | 91.4 |
| **Gwynedd** | **86.6** | **86.0** | **89.5** | **89.8** | **92.1** |
| Conwy | 83.1 | 84.3 | 85.8 | 86.6 | 88.4 |
| Dinbych | 86.0 | 86.6 | 87.9 | 88.6 | 88.9 |
| Fflint | 85.0 | 86.1 | 87.9 | 90.1 | 91.0 |
| Wrecsam | 85.4 | 84.2 | 87.7 | 87.7 | 90.3 |

## CA3

## CA3: Dangosydd Pwnc Craidd (DPC)




| Consortia | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GwE | 75.6 | 78.6 | 83.8 | 86.1 | 87.8 | 88.7 |
| EAS | 70.8 | 75.7 | 79.0 | 82.2 | 83.8 | 86.4 |
| ERW | 74.4 | 78.1 | 81.7 | 84.3 | 85.6 | 87.2 |
| CSC | 70.2 | 76.1 | 80.3 | 83.6 | 86.7 | 87.9 |
| Cymru/Wales | 72.5 | 77.0 | 81.0 | 83.9 | 85.9 | 87.4 |

| ALI / LA | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Mon | 77.9 | 81.5 | 83.6 | 84.5 | 87.6 | 88.9 |
| Gwynedd | 83.0 | 85.4 | 89.1 | 91.3 | 92.0 | 92.8 |
| Conwy | 75.7 | 78.5 | 83.7 | 87.2 | 87.3 | 88.9 |
| Denbighshire | 71.9 | 75.0 | 83.2 | 84.3 | 86.4 | 85.6 |
| Flintshire | 76.0 | 80.0 | 84.3 | 87.1 | 88.4 | 89.5 |
| Wrexham | 70.0 | 72.2 | 78.4 | 80.9 | 84.3 | 86.3 |

| DPC / CSI | 2015 | | 2016 | | 2017 | | Cynnydd / Progress | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | S/R | % | S/R | % | S/R | 16 -> 17 | 15 -> 17 |
| 1 (7) | 84.5 | 9 | 87.6 | 7 | 88.9 | 9 | 1.3 | 4.3 |
| Gwynedd (4) | 91.3 | 1 | 92.0 | 2 | 92.8 | 1 | 0.8 | 1.5 |
| 3 (9) | 87.2 | 6 | 87.3 | 9 | 88.9 | 8 | 1.5 | 1.7 |
| 4 (14) | 84.3 | 12 | 86.4 | 12 | 85.6 | 18 | -0.9 | 1.3 |
| 5 (6) | 87.1 | 7 | 88.4 | 6 | 89.5 | 5 | 1.1 | 2.4 |
| 6 (10) | 80.9 | 19 | 84.3 | 16 | 86.3 | 16 | 1.9 | 5.3 |
| GwE (1) | 86.1 | 1 | 87.8 | 1 | 88.7 | 1 | 1.0 | 2.6 |
| Cymru / Wales | 83.9 | | 85.9 | | 87.4 | | 1.5 | 3.5 |

| GWYNEDD | CYFNOD ALLWEDDOL 3 / KEY STAGE 3 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion / Indicators | Perff 2017 / Perf 2017 | 2016 -> 2017 | Tgd 2017 / Tgt 2017 | Perff v Tgd / Perf v Tgt | Rhagamcan 2017 / Latest Proj 2017 | Perff v Rhag / Perf v Proj |
| DPC / CSI | 92.8 | 0.8 | 92.4 | 0.4 | 93.3 | -0.5 |
| Cymraeg L5+ / Welsh 1st Language L5+ | 93.7 | 1.3 | 97.3 | -3.6 | 94.3 | -0.6 |
| Cymraeg L6+ / Welsh 1st Language L6+ | 67.2 | 6.5 | 64.5 | 2.7 | 64.5 | 2.7 |
| Saesneg L5+ / English L5+ | 93.6 | 1.1 | 94.2 | -0.6 | 93.9 | -0.3 |
| Saesneg L6+ / English L6+ | 64.8 | -0.4 | 67.2 | -2.4 | 66.0 | -1.2 |
| Mathemateg L5+ / Mathematics L5+ | 94.8 | 0.8 | 94.0 | 0.8 | 94.6 | 0.2 |
| Mathemateg L6+ / Mathematics L6+ | 73.0 | 2.4 | 72.2 | 0.8 | 71.3 | 1.7 |
| Gwyddoniaeth L5+ / Science L5+ | 96.8 | 0.8 | 95.8 | 1.0 | 96.0 | 0.8 |
| Gwyddoniaeth L6+ / Science L6+ | 76.0 | 5.5 | 72.6 | 3.4 | 75.1 | 0.9 |

| DPC / CSI | 2015 | | | 2016 | | | 2017 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | PYD / FSM | Dim-PYD / Non-FSM | Gwahan / Variance | PYD / FSM | Dim-PYD / Non-FSM | Gwahan / Variance | PYD / FSM | Dim-PYD / Non-FSM | Gwahan / Variance |
| **1** | 71.3 | 87.5 | -16.2 | 75.2 | 90.1 | -14.8 | 76.0 | 91.5 | -15.5 |
| **Gwynedd** | 78.1 | 93.4 | -15.3 | 82.1 | 93.3 | -11.2 | 84.9 | 93.7 | -8.7 |
| **3** | 70.1 | 90.1 | -20.0 | 71.0 | 90.5 | -19.5 | 73.1 | 92.1 | -19.0 |
| **4** | 63.2 | 88.6 | -25.4 | 71.6 | 89.7 | -18.1 | 70.9 | 88.2 | -17.4 |
| **5** | 71.6 | 89.9 | -18.3 | 76.2 | 90.9 | -14.7 | 71.7 | 92.7 | -20.9 |
| **6** | 56.0 | 86.4 | -30.4 | 65.7 | 88.1 | -22.3 | 68.9 | 90.1 | -21.2 |

- Mae perfformiad Gwynedd ar draws y prif ddangosyddion yn CA3 yn gadarn eto eleni. Mae ysgolion Gwynedd wedi perfformio yn well na'i safle o fewn y PYD (PYD Gwynedd = 12.4%, Safle 4 o fewn yr awdurdodau) ar y Dangosydd Pwnc Craidd.
- Mae ysgolion Gwynedd ar y brig o blith ysgolion y rhanbarth ar y Dangosydd Pwnc Craidd (Gwynedd = 92.8% GwE = 88.7% Cymru = 87.4%).
- Mae cynnydd o 0.8% ar ffigwr 2016 ar y dangosydd hwn ac mae Gwynedd yn y safle 1af o fewn yr awdurdodau ar y dangosydd hwn eleni.
- Mae cynnydd o 2.8% ar nifer y dysgwyr PYD sydd yn ennill y DPC.
- Yn ysgolion Gwynedd mae'r bwlch lleiaf o fewn y 6 awdurdod rhwng perfformiad v targed dysgwyr sydd >1%. Mae'r bwlch ar ei uchaf ar y lefelau uwch mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.
- Mae cyfartaledd y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn is na'r cenedlaethol ar -4.4% (Cymru – 7.4% a GwE -6.5%).
- Mae'r bwlch mewn perfformiad dysgwyr PYD Gwynedd yr isaf o fewn GwE ar – 8.7%.
- Llwyddodd 84.9% o ddysgwyr PYD Gwynedd i gyrraedd y Dangosydd Pwnc Craidd.

**Cymraeg:**

- Mae perfformiad ysgolion Gwynedd ychydig yn unig yn is na'r perfformiad ar draws GwE ar y lefel 5+ (GwE = 93.9% Gwynedd = 93.7% Cymru = 93.5%).
- Mae'r cynnydd ar 2016 ar y lefel 5+ yn y Gymraeg ar draws ysgolion Gwynedd yn 1.3%.
- Mae perfformiad ysgolion Gwynedd yn uwch na pherfformiad o fewn GwE ac ychydig yn well na pherfformiad Cymru ar y lefel 6+ ar 67.2%.

**Saesneg:**

- Mae ysgolion Gwynedd wedi perfformio yn uwch na chyfartaledd GwE (91.6%) a Cymru (90.5%) ar 93.7% ar y lefel 5+.
- Mae'r perfformiad tipyn yn uwch hefyd ar y lefel 6+ ar 64.8% (GwE = 59.4% Cymru = 58.7%).

**Mathemateg:**

- Mae perfformiad ysgolion Gwynedd sylweddol yn uwch ar 94.8% (GwE = 91.1% a Chymru = 90.8%) ar y lefel 5+.

- Mae perfformiad ysgolion Gwynedd sylweddol uwchben perfformiad GwE ac yn genedlaethol ar y lefel 6+ o 73% (GwE = 66.8% a Chymru = 65.4%).

**Gwyddoniaeth:**

- Mae ysgolion Gwynedd ychydig yn uwch na chyfartaledd GWE ar y lefel 5+ ar 96.8% ac yn uwch na'r cenedlaethol (GwE = 94.6% a Chymru = 93.5%).
- Mae ysgolion Gwynedd sylweddol uwch na GWE a Cymru ar y lefel 6+ (Gwynedd = 76.02% GwE = 67.7% a Chymru = 65.5%).

**<u>CA4:</u> Cyd-destun (ar sail data heb ei ddilysu)**

**Pwysleisir mai gwybodaeth gychwynnol am ganlyniadau CA4 a CA5 sy'n cael eu rhannu gan nad oes mynediad, hyd yma, at ddata chymharol a meincnodol ar gyfer y cyfnodau allweddol hyn.**

Yn 2017, cafodd y manylebau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth eu harholi am y tro cyntaf.

Mae Mathemateg yn cynnwys dau faes llafur newydd (Rhifedd a Mathemateg) ac mae un neu'r llall o'r rhain yn cyfrannu at y Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Mathemateg ac Iaith (L2+).

Yn ogystal, mae newidiadau i'r dangosydd L2+ yn golygu mai dim ond Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg Iaith sy'n gynwysedig; yn y gorffennol roedd TGAU Llenyddiaeth ar gyfer y naill iaith neu'r llall yn cyfrannu hefyd.

O ganlyniad, bu gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r L2+ ar lefel sirol, rhanbarthol a chenedlaethol. Golyga hynny bod gennym feincnodau newydd eleni ar gyfer CA4. O ganlyniad, nid yw'n ystyrlon i gymharu'r data gyda'r blynyddoedd blaenorol.

Yr hyn a roddir gymhariaeth ystyrlon i ni eleni yw craffu ar berfformiad Gwynedd yn erbyn awdurdodau eraill yn y rhanbarth ac yn genedlaethol.

Mae'r ddau dabl canlynol yn darlunio hyn:

**<u>Perfformiad ar y TL2+ ar draws y Consortia</u>**

| TL2+ | 2015 | | 2016 | | 2017 | | Cynnydd / Progress | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | S/R | % | S/R | % | S/R | 16->17 | 15->17 |
| **GwE** | 57.5 | 3 | 59.6 | 3 | 53.2 | 3 | -6.4 | -4.3 |
| **EAS** | 55.1 | 4 | 55.5 | 4 | 52.1 | 4 | -3.4 | -3.0 |
| **ERW** | 61 | 1 | 64.0 | 1 | 56.4 | 1 | -7.6 | -4.6 |
| **CSC** | 58.5 | 2 | 60.9 | 2 | 53.6 | 2 | -7.3 | -4.9 |
| **Cymru** | 57.9 | | 60.3 | | - | | - | - |

Bu cwymp cenedlaethol ar draws y pedwar Consortiwm, ac mae'r cwymp mewn dau ohonynt wedi bod yn fwy na'r cwymp yng Nghonsortiwm y gogledd, sef GwE.

**<u>Perfformiad Ysgolion Gwynedd ar y TL2+</u>**

| TL2+ | 2015 | | 2016 | | 2017 | | Cynnydd / Progress | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | S/R | % | S/R | % | S/R | 16->17 | 15->17 |
| **1 (10)** | 56.9 | 12 | 58.8 | 13 | 50.1 | 14 | -8.7 | -6.8 |
| **Gwynedd (4)** | 63.3 | 5 | 65.9 | 4 | 58.3 | 5 | -7.6 | -5.0 |
| **3 (8)** | 54.2 | 18 | 55.9 | 17 | 53.9 | 12 | -2.0 | -0.3 |
| **4 (14)** | 56.1 | 14 | 58.7 | 14 | 49.4 | 17 | -9.3 | -6.7 |
| **5 (6)** | 60.6 | 8 | 61.5 | 10 | 56.1 | 8 | -5.4 | -4.5 |
| **6 (9)** | 52.1 | 20 | 55.3 | 18 | 49.1 | 19 | -6.2 | -3.0 |
| **GwE (1)** | 57.5 | 3 | 59.6 | 3 | 53.2 | 3 | -6.4 | -4.3 |
| **Cymru** | 57.9 | | 60.3 | | - | | - | - |

Er bod yna gwymp o -7.6% yng Ngwynedd yn y prif ddangosydd yn CA4 (sef TL2+), mae Gwynedd wedi dal ei thir yn genedlaethol.

**I grynhoi:**

- Gwelir bod perfformiad ysgolion Gwynedd wedi dangos cwymp ar y TL2+ eleni yn unol â’r tuedd cenedlaethol.
- Llwyddodd 58.3% o ddysgwyr ysgolion Gwynedd i ennill y TL2+ sydd yn gosod Gwynedd yn y safle 1af o fewn ysgolion y rhanbarth ar y prif ddangosydd hwn.
- Mae’r perfformiad eleni yn gosod safle Gwynedd yn bumed allan o’r 22 o awdurdodau. yn CA4 prif ddangosydd TL2+.
- Llwyddodd 45.4% o ddysgwyr PYD i ennill y TL2+ - dyma’r ffigwr uchaf o fewn ysgolion y rhanbarth (25.6%).

## Gwaelodlin Gwynedd ar y prif ddangosyddion eraill

| TL2 | 2017 | | 2018 | | 2019 | | Cynnydd / Progress | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | S/R | % | S/R | % | S/R | 17->18 | 17->19 |
| 1 | 64.7 | - | | | | | | |
| Gwynedd | 70.7 | - | | | | | | |
| 3 | 68.9 | - | | | | | | |
| 4 | 65.7 | - | | | | | | |
| 5 | 67.2 | - | | | | | | |
| 6 | 61.3 | - | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| GwE | 66.6 | - | | | | | | |
| Cymru | - | | | | | | | |
| TL1 | 2017 | | 2018 | | 2018 | | Cynnydd / Progress | |
| | % | S/R | % | S/R | % | S/R | 17->18 | 17->19 |
| 1 | 94.6 | - | | | | | | |
| Gwynedd | 96.0 | - | | | | | | |
| 3 | 96.0 | - | | | | | | |
| 4 | 89.8 | - | | | | | | |
| 5 | 93.8 | - | | | | | | |
| 6 | 93.7 | - | | | | | | |
| GwE | 93.9 | - | | | | | | |
| Cymru | - | | | | - | | - | - |
| 5A*-A | 2017 | | 2018 | | 2019 | | Cynnydd / Progress | |
| | % | S/R | % | S/R | % | S/R | 17->18 | 17->19 |
| 1 | 12.2 | - | | | | | | |
| Gwynedd | 20.5 | - | | | | | | |
| 3 | 12.1 | - | | | | | | |
| 4 | 13.7 | - | | | | | | |
| 5 | 14.1 | - | | | | | | |
| 6 | 13.3 | - | | | | | | |
| GwE | 14.5 | - | | | | | | |
| Cymru | - | | | | | | | |

## Prif negeseuon:

- Mae'r perfformiad ar y TL2 o fewn ysgolion Gwynedd wedi dilyn y patrwm rhanbarthol o gwymp - TL2 GwE = 66%, Gwynedd = 70%. Mae'r symudiad oddi wrth gyrsiau galwedigaethol a BTEC yn arbennig, mewn Gwyddoniaeth wedi effeithio'r perfformiad ar y L2 eleni.
- Mae perfformiad dysgwyr Gwynedd ar y TL1 yr uchaf o ysgolion y rhanbarth ar 96%.
- Ar y Sgôr Pwyntiau wedi capio mae ysgolion Gwynedd yn drydedd allan o chwech o ysgolion y rhanbarth ar 308.1 (GwE = 294.9).
- Mae cynnydd yn y nifer sy'n ennill 5A/A* o 2.4% i 20.5% eleni - mae hwn yr uchaf o fewn ysgolion y rhanbarth.

**Cymraeg:**

- Mae'r Perfformiad o fewn ysgolion y rhanbarth eleni yn 70.8% ar Lefel 2.
- Mae perfformiad ysgolion Gwynedd yn uwch ar 72.8%.
- Mae bwlch rhwng rhagamcanion terfynol a pherfformiad mewn rhai ysgolion, ond mewn cymhariaeth gydag ysgolion o fewn y rhanbarth, mae ysgolion Gwynedd gyda'r bwlch lleiaf (-2.2%). Mae hyn hefyd sylweddol yn is na'r bwlch rhwng rhagamcanion a pherfformiad y pynciau craidd eraill.

**Saesneg:**

- Mae perfformiad dysgwyr sydd wedi llwyddo i ennill L2 yn ysgolion Gwynedd yn 63.5%, sydd yn uwch nag ysgolion y rhanbarth sef 61.6%.
- Mae bwlch arwyddocaol rhwng perfformiad a rhagamcanion terfynol mewn nifer o ysgolion.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Mae perfformiad dysgwyr sydd wedi llwyddo i ennill L2 Mathemateg yn ysgolion Gwynedd yn 56.3% sydd yn gyfartal i ffigwr cyfartalog ysgolion y rhanbarth.
- Mae bwlch arwyddocaol rhwng perfformiad a rhagamcanion terfynol yn nifer o ysgolion Gwynedd sydd yn destun pryder ac angen sylw (-24.3% o wahaniaeth yn Ngwynedd). Fodd bynnag mae'n parhau sylweddol yn is mewn cymhariaeth gyda chyfartaledd ysgolion y rhanbarth o 45.9%.
- Mae'r perfformiad mewn Rhifedd yn well gyda 59.3% o'r dysgwyr yn llwyddo i ennill Lefel 2 (cyfartaledd GwE = 49.8%).

**Gwyddoniaeth:**

- Mae'r perfformiad ychydig yn is na chyfartaledd ysgolion y rhanbarth eleni ar 73.2% (GwE = 74.1%).
- Fodd bynnag eleni roedd nifer o ysgolion wedi symud oddi wrth y cyrsiau BTEC (lle roedd pwysoliad uchel o waith cwrs) ac mae hyn wedi cael effaith ar berfformiad dysgwyr yn genedlaethol, ar draws y rhanbarth ac o fewn ysgolion y rhanbarth. O ganlyniad, mae'n anodd dod i gasgliadau manwl a chywir ar hyn o bryd am berfformiad yr awdurdod.
- Mae bwlch sylweddol hefyd rhwng perfformiad a rhagamcanion terfynol mewn nifer o ysgolion.

**CA5 (Lefel A)**
*Adroddiad wedi ei seilio ar ganlyniadau CBAC yn unig

1. Roedd disgyblion Awdurdod Lleol Gwynedd wedi cofrestru ar gyfer 950 Lefel A (sef 102 Lefel A yn fwy nac yn 2016) mewn 30 pwnc (1 Pwnc yn llai na llynedd).

2. Canlyniadau: Treigl 3 blynedd Gwynedd mewn cymhariaeth â Chymru:

| | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd | Cymru | Gwynedd |
| **Gradd A*** | 7.3 | 9.8 | 6.6 | 5.8 | 8.3 | 9.3 |
| **Gradd A - A*** | 23.1 | 24.9 | 22.7 | 20.2 | 25.0 | 25.5 |
| **Graddau A*- E** | 97.3 | 97.5 | 97.3 | 96.2 | 97.7 | 97.3 |

3. Cyfraddau A* - E (2016 a 2017) awdurdodau lleol ardal Consortia GwE:

| Awdurdod | Cyfradd A* - E % 2016 | +/- mewn Cymhariaeth â Chymru (97.3%) | Safle /6 | Cyfradd A* - E % 2017 | +/- mewn Cymhariaeth â Chymru (97.7%) | Safle /6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 96.2 | -1.1 | 6 | 97.3 | -0.4 | 4 |
| Conwy | 97.7 | +0.4 | 3 | 96.6 | -1.1 | 5 |
| Dinbych | 98.8 | +1.6 | 1 | 98.5 | +0.8 | 1 |
| Fflint | 97.2 | -0.1 | 4 | 97.8 | +0.1 | 3 |
| Wrecsam | 98.5 | +1.2 | 2 | 96.6 | -1.1 | 5 |
| Ynys Môn | 96.9 | -0.4 | 5 | 98.2 | +0.9 | 2 |

4. Perfformiad yn erbyn targedau cynllun busnes yr Adran Addysg 2016-2017:

**i) Targed = cynyddu o 1.4% yn erbyn perfformiad 2016**

A* - E : Perfformiad 2016 = 96.2%
Gwynedd : Targed 2017 = 97.6%
: Perfformiad 2017 = 97.3%

**ii) Targed = Cynyddu'r niferoedd sy'n ennill graddau A*/A drwy ddeilliant gwaith cynllun Seren i fod cyfystyr â'r lefel genedlaethol**

A*/A : Perfformiad Gwynedd 2016 = 5.8%
: Perfformiad Cymru 2016 = 6.6%
: Perfformiad Gwynedd 2017 = 9.3%
: Perfformiad Cymru 2017 = 8.3%

5. Dadansoddiad o bynciau heb gyfradd cwblhau o 100% A* - E

| Pwnc | Nifer Cofrestriadau | Canradd cwblhau % | Nifer y Graddau 'U' | % gwahaniaeth rhwng cyfradd A* - E Gwynedd / Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Mathemateg** | 103 | 96.1 | 4 | 96.8 (-0.7) |
| **TGCH** | 9 | 88.9 | 1 | 92.6 (-3.7) |
| **Addysg Gorfforol** | 45 | 97.8 | 1 | 96.9 (-0.1) |
| **Addysg Grefyddol** | 63 | 96.8 | 2 | 98.0 (-1.2) |
| **Cymdeithaseg** | 26 | 92.3 | 2 | 97.9 (-5.6) |
| **Seicoleg** | 40 | 97.5 | 1 | 98.1 (-0.6) |
| **Bioleg** | 63 | 98.4 | 1 | 96.7 (+1.7) |
| **Cemeg** | 69 | 92.8 | 5 | 97.5 (-4.7) |
| **Busnes** | 24 | 95.8 | 1 | 97.9 (-2.1) |
| **Saesneg Llên** | 46 | 97.8 | 1 | 98.6 (-0.8) |
| **Arlunio; Crefft a Thechnoleg** | 23 | 95.7 | 1 | - |
| **Arlunio a Thechnoleg; Celf Gain** | 16 | 87.5 | 2 | - |
| **Arlunio a Thechnoleg; Photograffiaeth** | 20 | 90.0 | 2 | - |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Strategaeth Iaith Uwchradd |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 26 Medi 2017 |
| **Awdur** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. CEFNDIR**

Cyflwynir yr adroddiad yma ynghyd â fersiwn drafft o Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Gofynnwyd i'r adroddiad gyfarch nifer o gwestiynau a ddarparwyd gan aelodau'r pwyllgor ymlaen llaw, a cheisir cyfarch y cwestiynau hynny yn eu trefn yn y blaenadroddiad hwn.

**2. I BA RADDAU MAE'R STRATEGAETH IAITH UWCHRADD YN SICRHAU DILYNIANT O'R SIARTER IAITH CYNRADD?**

Ers lansio Siarter Iaith Gymraeg yng Ngwynedd, mae gwaith arloesol wedi digwydd yn ein hysgolion cynradd i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg.
Er mwyn sicrhau dilyniant cadarn i'r Siarter, lluniwyd Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn rhoi arweiniad clir i'n hysgolion uwchradd am dechnegau newid arferion iaith a'r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol disgyblion y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

Yn yr un modd â'r Siarter Iaith Cynradd, mae'r Strategaeth Iaith Uwchradd yn gofyn am gyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol – y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn gan holl randdeiliaid yr ysgol.

Yn yr un modd ac y disgwylir i'r ysgolion cynradd lunio cynllun gweithredu er mwyn ymateb i ofynion efydd, arian ac aur y Siarter Iaith, disgwylir i bob ysgol uwchradd lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r Strategaeth Iaith Uwchradd. Er mwyn cyflawni hynny, yn ystod tymor yr haf, bu Carys Lake yn ymweld â phennaeth bob un o'r ysgolion uwchradd er mwyn trafod eu cynlluniau gweithredu gyda hwy, ac mae pob ysgol yn y broses o gyflwyno eu cynlluniau gweithredu i Carys Lake ar hyn o bryd.

Felly, er nad Siarter Iaith yw'r cynllun a weithredir yn yr ysgolion uwchradd er mwyn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg, y mae elfennau a disgwyliadau cyffelyb i'w gweithredu rhwng y Siarter Iaith Cynradd a'r Strategaeth Iaith Uwchradd, fydd yn sicrhau dilyniant priodol rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd.

## 3. BETH YW'R WYBODAETH O'R DATA GWAELODLIN AR DDEFNYDD O'R GYMRAEG MEWN YSGOLION UWCHRADD?

Mae'r 'gwe iaith', sef holiadur ar-lein a ddatblygwyd i fesur defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd, wedi ei pheilota gyda disgyblion Blwyddyn 7 yr ysgolion uwchradd yn ystod 2016. Bwriad y peilot oedd gweld pa mor ymarferol ydoedd galluogi pob disgybl Blwyddyn 7 i lenwi'r holiadur, a faint o amser ac adnoddau a gymer hynny.

Er bod nifer sylweddol o ddisgyblion Blwyddyn 7 wedi cwblhau'r we iaith, yn anffodus, nid oes modd defnyddio'r data a gasglwyd gan fod nifer y disgyblion a gwblhaodd y we iaith ym mis Medi 2016 yn wahanol i nifer y disgyblion a gwblhaodd y we iaith ym mis Mawrth 2017. O ganlyniad, nid oes modd gwneud dadansoddiad ystyrlon o'r data.

Mae'r Strategaeth Iaith Uwchradd yn wahanol i'r Siarter Iaith Cynradd yn sgil y ffaith fod y Strategaeth Uwchradd yn cwmpasu'r elfen gwricwlaidd yn ogystal â defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg. O ganlyniad, mae'r holiadur gwe iaith wedi ei addasu ar gyfer yr uwchradd er mwyn ymgorffori'r ddwy elfen yma, gan sicrhau ar yr un pryd, gysondeb yn rhai o'r cwestiynau er sicrhau bod modd tracio cynnydd yn y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg o'r cynradd i'r uwchradd.

Byddwn yn sefydlu gwaelodlin o'r newydd gyda'r holiadur diwygiedig ym mis Hydref 2017, i gyd-fynd gyda dechrau cyfnod gweithredu'r Strategaeth Iaith Uwchradd.

## 4. BETH YW UCHELGAIS Y STRATEGAETH?

Mae Cyngor Gwynedd yn gwbl ymrwymedig i gyfundrefn o ysgolion uwchradd blaengar a rhagorol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u gwaith.

Nod y Strategaeth Iaith Uwchradd yw hyrwyddo defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a'i datblygu fel cyfrwng effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol yn ei holl agweddau.

Bydd y Strategaeth yn offeryn cynllunio effeithiol, gan adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith Cynradd, ar gyfer arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

Mae'n cefnogi gweledigaeth Strategaeth Iaith Gwynedd i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu. Trwy roi pwyslais ar y Gymraeg, sicrheir bod plant Gwynedd yn hyfedr a hyderus ddwyieithog ac yn ymfalchïo yn y gwerth ychwanegol a roddir iddynt o gael dwy iaith, eu bod yn gallu defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus yn gymdeithasol ac yn broffesiynol wedi gadael yr ysgol a'u bod yn y pen draw yn trosglwyddo'r ddwy iaith i'r genhedlaeth nesaf yng Ngwynedd.

## 5. YDI'R STRATEGAETH WEDI EI LLUNIO AR Y CYD GYDAG YSGOLION A SUT CAFODD HYN EI WNEUD?

Lluniwyd y Strategaeth hon dan arweiniad Carys Lake, Arweinydd Canolfan Iaith Uwchradd Gwynedd a chyda chydweithrediad gweithgor o benaethiaid a dirprwyon uwchradd a swyddogion Cyngor Gwynedd. Roedd y gweithgor yn cynrychioli ystod o ysgolion uwchradd sy'n amrywio o ran lleoliad daearyddol, maint, cefndir a chyd-destun ieithyddol, sef:

- Ysgol Brynrefail
- Ysgol Friars
- Ysgol Tryfan
- Ysgol Eifionydd
- Ysgol Glan y Môr
- Ysgol Uwchradd Tywydd
- Swyddog Rheoli Perfformiad, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd
- Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg, Cyngor Gwynedd

Sicrhawyd mewnbwn gwerthfawr a brwd i'r Strategaeth gan ddysgwyr uwchradd o wahanol gefndiroedd ieithyddol gan gynnwys Cymry cynhenid, dysgwyr rhugl, a dysgwyr mwy elfennol. Bu ymweliadau'r Cydlynydd gyda grwpiau o ddisgyblion yn gyfle i sbydu syniadau o bob math. Roedd brwdfrydedd heintus y disgyblion hyn yn creu argraff arbennig.

Cyflwynwyd drafft o'r Strategaeth Iaith Uwchradd gerbron Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd (pob pennaeth uwchradd a'r Adran Addysg yn bresennol) gan y Pennaeth Addysg a Chydlynydd y Strategaeth Iaith Uwchradd. Yno, derbyniwyd cefnogaeth i amcanion y Strategaeth, ac felly ymrwymiad i weithredu gan yr 14 ysgol uwchradd gyda chefnogaeth Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd.

## 6. YDI'R STRATEGAETH WEDI CYFARCH MATERION SY'N CODI O'R YMCHWILIAD CRAFFU ADDYSG GYMRAEG?

Mae'r Strategaeth Iaith Uwchradd yn canolbwyntio ar y Gymraeg ac Addysg, ac yn cwmpasu elfennau cwricwlaidd yn ogystal â defnydd cymdeithasol o'r iaith. Mae pedwar prif faes y mae'r Strategaeth yn ceisio ymateb iddynt:

- Cymraeg Iaith Gyntaf
- Cymraeg Ail Iaith
- Y Gymraeg fel cyfrwng
- Defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg

Mae'r Aelod Cabinet Addysg eisoes wedi cyflwyno adroddiad cynnydd yn erbyn argymhellion yr Adroddiad Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg gerbron y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ym mis Ionawr 2016. Roedd nifer o argymhellion yr adroddiad eisoes wedi eu cyflawni ar y pryd, ond bod un argymhelliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith yn parhau.

Roedd yr argymhelliad hwnnw yn ymwneud â gweithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn ysgolion y sir, ar sail astudiaeth o dair ardal benodol, ble daethpwyd i'r casgliad fod 'dehongli'r polisi'n amrywio'n arw ac yn ddibynnol ar ddemograffi ieithyddol dalgylchoedd ysgolion yn ogystal ag o ran sêl athrawon a phrifathrawon dros y Gymraeg. Nodwyd hefyd 'nad oes cysondeb nac ychwaith ddealltwriaeth cyffredinol o'r gofynion'.

O ganlyniad, cynhaliwyd trafodaethau gyda phenaethiaid pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd, er sicrhau eglurder a chysondeb yn y modd y maent yn diffinio eu hunain (yn unol â chategori ieithyddol Llywodraeth Cymru). Mae diffiniadau'r ysgolion wedi eu cynnwys fel atodiad i'r Strategaeth Iaith Uwchradd, a bydd yn rhan o'r modd y caiff y Strategaeth ei monitro gan Gydlynydd y Strategaeth a'r Adran Addysg.

At hyn, rhaid cydnabod bod cyd-destun a'r cyfeiriad ar gyfer y Strategaeth Iaith Uwchradd wedi ei seilio ar nifer o ddogfennau polisi allweddol, yn eu plith Adroddiad Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg, sef:

- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Adroddiad Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg
- Adroddiad Astudiaeth Alun Charles
- Prosiect Cefnogi Arferion iaith (PCAI), Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Iaith Gwynedd
- Cynyddu Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg gan Blant a Phobl Ifanc Ysgolion Uwchradd Gwynedd , Adroddiad Trywydd
- Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru
- Fframwaith ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru
- Dyfodol Llwyddiannus, Adolygiad Donaldson

**7. SYLWADAU**

Gwahoddir unrhyw sylwadau neu gwestiynau atodol gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y Strategaeth Iaith Uwchradd.

# STRATEGAETH IAITH

# UWCHRADD GWYNEDD

DRAFFT

## 2. RHAGAIR

Ers lansio’r Siarter Iaith Gymraeg yng Ngwynedd, mae gwaith arloesol wedi digwydd yn ein hysgolion cynradd i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o’r Gymraeg. Er mwyn sicrhau dilyniant cadarn i’r Siarter, mae’n bleser gennym gyflwyno Strategaeth Iaith Uwchradd fydd yn rhoi arweiniad clir i’n hysgolion uwchradd am dechnegau newid arferion iaith a’r gwahanol ffyrdd o ddylanwadu ar iaith gymdeithasol disgyblion y tu mewn a thu allan i’r ysgol.

Lluniwyd y Strategaeth hon dan arweiniad Carys Lake, Arweinydd Canolfan Iaith Uwchradd Gwynedd a chyda chydweithrediad gweithgor o benaethiaid a dirprwyon uwchradd a swyddogion Cyngor Gwynedd. Roedd y gweithgor yn cynrychioli ystod o ysgolion uwchradd sy’n amrywio o ran lleoliad daearyddol, maint, cefndir a chyd-destun ieithyddol.

Sicrhawyd mewnbwn gwerthfawr a brwd i’r Strategaeth gan ddysgwyr uwchradd o wahanol gefndiroedd ieithyddol gan gynnwys Cymry cynhenid, dysgwyr rhugl a dysgwyr mwy elfennol. Bu’r ymweliadau hyn â grwpiau o ddisgyblion yn gyfle i sbydu syniadau o bob math. Roedd brwdfrydedd heintus y disgyblion hyn yn creu argraff arbennig.

Bydd cynllunio a gweithredu’r Strategaeth hon yn effeithiol yn sicrhau gweithredu cyson safonol i hyrwyddo’r Gymraeg lafar anffurfiol gan ddysgwyr ein hysgolion uwchradd. Mae’n cydnabod a mynd i'r afael â’r heriau hynny yn y maes gan gynnwys effaith a dylanwad ffactorau megis cyfryngau cymdeithasol a dylanwad masnachol byd eang. Mae’n gosod gweledigaeth glir gytunedig ac yn cynnwys llwybrau gweithredu clir sy’n cynnwys atebolrwydd i wireddu’r weledigaeth honno.

Er mwyn gweithredu’r Strategaeth hon, mae’n hanfodol bod yr holl randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion, staff dysgu a gweinyddol, Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd, rhieni a disgyblion nid yn unig yn tanysgrifio iddi ond hefyd yn ei chofleidio fel arf fydd yn sicrhau bod Gwynedd yn arwain yn flaengar wrth gyfrannu at wireddu *Cymraeg 2050*.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy’r Gymraeg. Fel rhan o’r ymdrech i gyrraedd y nod yma, gofynnwyd yn benodol i Gyngor Gwynedd gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i ledaenu arferion y Siarter Iaith Cynradd ledled Cymru. Cyffrous felly yw cyhoeddi bod Cyngor Gwynedd wedi datblygu Strategaeth Iaith Uwchradd fel offeryn cynllunio effeithiol, gan adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith Cynradd, ar gyfer arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o’r Gymraeg.

Gareth Thomas,
Aelod Cabinet Addysg



DRAFT

**CYNNWYS**

1. Rhagair

2. Cymraeg 2050

3. Strategaeth Iaith Gwynedd

4. Cefndir a Chyd-destun

5. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

6. Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd

7. Braenaru'r Tir yn y Sector Uwchradd

8. Gweithredu Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd

9. Y Weledigaeth

10. Amcanion
    - Amcan 1: Arweinyddiaeth a Disgwyliadau
    - Amcan 2: Ethos
    - Amcan 3: Pobl Ifanc
    - Amcan 4: Hyfforddiant
    - Amcan 5: Rôl Adrannau Iaith
    - Amcan 6: Profiadau cwricwlaidd
    - Amcan 7: Dysgwyr pontio
    - Amcan 8: Yr Ysgol a'r Gymuned

11. Trefniadau monitro

12. Atodiadau

DRAFT

***CYMRAEG 2050***

*Cymraeg 2050* yw dogfen bolisi ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, ac fe'i chyhoeddwyd yn 2017. Gweledigaeth y Llywodraeth yw creu miliwn o siaradwyr erbyn y flwyddyn 2050, a chred y Llywodraeth fod dau brif ddull o gyrraedd y nod, sef:

- trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall o fewn y teulu
- datblygu a chynnal sgiliau drwy addysg a hyfforddiant, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth yn y Gymraeg i oedolion

Mae'r weledigaeth o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050 yn darged hirdymor ar gyfer y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru, ac mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith nad oes modd cynyddu nifer y siaradwyr dros nos, a bod cynllunio ieithyddol yn ymdrech hirdymor. Yn ogystal â chael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r targedau cyffredinol canlynol ar gyfer y strategaeth:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050

At hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod tair thema strategol ar gyfer gwireddu eu gweledigaeth erbyn 2050, sef:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae'r tair thema'n gyd-ddibynnol, ac felly hefyd nifer o'r nodau a nodir o dan bob thema:

DRAFT

**Thema 1:**

## Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y blynyddoedd cynnar
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

**Thema 2:**

## Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

- Y gweithle
- Gwasanaethau
- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

**Thema 3:**

## Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

- Cymuned a'r economi
- Diwylliant a'r cyfryngau
- Cymru a'r byd ehangach
- Technoleg ddigidol
- Seilwaith ieithyddol
- Cynllunio ieithyddol
- Gwerthuso ac ymchwil

DRAFT

**STRATEGAETH IAITH GWYNEDD**

Gweledigaeth Strategaeth Iaith Gwynedd yw:

*Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Ngwynedd*

Drwy gyfrwng y Strategaeth, ceisir gwireddu'r profiadau canlynol:

- Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gweld gwerth i'r iaith ac yn defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau.
- Y Gymraeg yn gyfrwng naturiol o fewn cymunedau Gwynedd a chynnydd yn y niferoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd.
- Cymunedau Cymreig wedi eu grymuso i gefnogi'r iaith a'r dirywiad o fewn cymunedau penodol yn cael ei arafu/atal.
- Gwasanaethau Cymraeg ar gael yn eang yn y Gymraeg ac yn cael eu defnyddio yn rhwydd ac yn hwylus.
- Y Gymraeg wedi ei sicrhau fel iaith gwaith a phob gweithiwr yn cael y cyfle a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.
- Y Gymraeg yn cael ei integreiddio'n naturiol i gynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol a chenedlaethol.
- Hyder, agwedd gadarnhaol ac ymwybyddiaeth dda o'r iaith Gymraeg a'i defnydd a'i gwerth ym mhob rhan o fywyd yn y Sir.

Bydd fersiwn newydd o Strategaeth Iaith Gwynedd yn cael ei gyhoeddi yn fuan. Bydd y strategaeth newydd yn ymgorffori blaenoriaethau *Cymraeg 2050*, Cynllun Llesiant Gwynedd, Cynllun y Cyngor ynghyd â'r amcanion a nodir yn y Strategaeth Iaith Uwchradd hon.

DRAFT

**CEFNDIR A CHYD-DESTUN**


Y Cyfrifiad yw'r prif ffynhonnell ddata ar gyfer dadansoddi sefyllfa gyfredol yr iaith Gymraeg. Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 fod 562,000, sef 19% o boblogaeth Cymru, yn gallu siarad Cymraeg. Dengys y canlyniadau hyn ostyngiad ers Cyfrifiad 2001, pryd y gwelwyd cynnydd am y tro cyntaf yn nifer a chanran y boblogaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg, o 508,100, sef 18.7% yn 1991, i 582,000, sef 20.8% yn 2001.

Yn 2011, gwelwyd gostyngiad yn niferoedd siaradwyr Cymraeg yn 18 o'r 22 sir yng Nghymru, gyda'r cwymp ar ei waethaf yn siroedd y gorllewin: Môn, Gwynedd, Ceredigion, a Chaerfyrddin, fel y dengys y tabl isod:

| SIR | 2001 | | 2011 | | NEWID | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | NIFER | % | NIFER | % | NIFER | % |
| **Gwynedd** | 77,846 | 69% | 77,000 | 65.4% | -846 | -3.6 |
| **Ynys Môn** | 38,839 | 60.1% | 38,568 | 57.2% | -352 | -2.9 |
| **Ceredigion** | 37,918 | 52.0% | 34,964 | 47.3% | -2,954 | -4.7 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 84,196 | 50.3% | 78,048 | 43.9% | -6,148 | -6.4 |

Gwelwyd twf o 153,000 ym mhoblogaeth Cymru rhwng 2001 a 2011, a gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r twf hwn i fewnfudo. Rhwng 2001 a 2011, gwelodd Gwynedd gynnydd o 4,700, sef 4% yn y boblogaeth. Er gwaetha'r twf yn y boblogaeth, Gwynedd yw'r sir gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg o holl siroedd Cymru, ac mae'r iaith yn rhan gwbl greiddiol o fywyd bob dydd yma.

Dengys Cyfrifiad 2011 bod amrywiaeth eang iawn yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg ar draws y sir, gyda'r canrannau uchaf yn hanu o wardiau Llanrug (87.8%) a Pheblig (87.4%) yng Nghaernarfon. Gwelir y canrannau'n gostwng wrth fynd i gyfeiriad Bangor (34.6%), a'r ardaloedd arfordirol ym Meirionnydd megis Aberdyfi (35.5%). Er hyn, mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli o leiaf 30% o'r boblogaeth barhaol ymhob ward heblaw dwy, sef ward Menai (18.6%) a ward Deiniol (22.8%) ym Mangor.






DRAFT

Dengys y Cyfrifiad arwyddion o newid hefyd yng nghadarnleoedd traddodiadol yr iaith, gyda'r newid ar ei amlycaf yn y cymunedau hynny lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

Rhwng 1991 a 2001, gwelwyd nifer yr ardaloedd yng Ngwynedd lle'r oedd dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn gostwng o 61 ardal yn 1991, i 42 yn 2001, gan ostwng ymhellach i 39 yn 2011. Y tair ward sydd wedi gostwng o dan 70% yn ôl Cyfrifiad 2011 yw: Y Felinheli, Dolbenmaen a De Dolgellau.

Gwelir newid yn strwythur oedran y boblogaeth yng Ngwynedd rhwng 2001 a 2011 hefyd, gyda gostyngiad yng nghanran y plant a phobl ifanc yn y grŵp oedran 0-15, fel y dengys y tabl isod:

| OEDRAN | NEWID |
|---|---|
| 0-15 | -7.7% |
| 16-64 | +4.6% |
| 65+ | +13.9% |

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 16,866 o blant a phobl ifanc 3-15 oed yn byw yng Ngwynedd, sy'n adlewyrchu 14.3% o'r holl boblogaeth. O'r rhain, mae 1,997, sef 73% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg, a 13,038, sef 92% o blant 5-15 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Dengys y data uchod lwyddiant Polisi Iaith Addysg Gwynedd i ddatblygu sgiliau iaith ymysg plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ni all y Cyfrifiad ddweud wrthym faint o ddefnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd a thu allan i'r ysgol.

DRAFT

**CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

Mae Polisi Iaith Adran Addysg Gwynedd yn gosod y nod uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nod Cynllun Strategol y Gymraeg sef sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd a wna ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol.

Y weledigaeth yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, ceir saith deilliant yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sef:

1. Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
2. Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
3. Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
4. Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.
5. Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg
6. Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg
7. Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

**Deilliant 2: Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

Mae gan Wynedd bedwar prif amcan er mwyn cyflawni'r deilliant hwn, sef:

- Sicrhau cysondeb traws sirol drwy sicrhau fod pob disgybl sydd wedi ennill 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf yn B7 ac yn cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, a thrwy hynny, cynyddu'r % a asesir yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3.
- Gwella dilyniant yn CA3 er mwyn cael dylanwad cadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg Iaith Gyntaf.
- Pob ysgol i ddefnyddio'r carfanau iaith i gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu er mwyn sicrhau parhad neu welliant yng ngharfan ieithyddol ar lefel disgyblion unigol.
- Cryfhau ymhellach rôl y Cyd-gysylltwyr Iaith Cynradd a Chydlynwyr Iaith Uwchradd o ran cynllunio ieithyddol a chynllunio dilyniant.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2:

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel 3+** | 95.0% | 95.0% | 95.1% | 96.8% | 96.9% | 97.4% | 98.3% |

DRAFT

Gellir cymharu'r tabl uchod, gyda'r tabl canlynol sydd yn dangos canran y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3:

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **GWYNEDD** | 81.7% | 83.0% | 86.1% | 82.5% | 81.2% | 83.2% | 83.7% |

Gwelir fod gostyngiad yn y ganran dros bob un o'r blynyddoedd.

**Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.**

Mae gan Wynedd saith prif amcan er mwyn cyflawni'r deilliant hwn, sef:

- Sicrhau bod yr holl ysgolion yn ymateb i ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau ac wedi manteisio ar bartneriaethau cydweithredol
- Cynyddu ymhellach ganran y disgyblion sy'n parhau i astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn CA4 hyd at sefyll arholiad allanol
- Gweithio gyda'r prif randdeiliaid i sicrhau bod yr arlwy yn caniatáu mynediad i ddarpariaeth ddwyieithog ar draws y pynciau galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru yn CA4.
- Sicrhau bod cyrsiau galwedigaethol cydweithredol a ariennir trwy grant Rhwydwaith 14-19 ar gael yn y Gymraeg/dwyieithog [gan gynnwys unrhyw gyrsiau a ddarperir gan y Colegau].
- Sicrhau bod y Grwpiau Partneriaeth ac Is-grŵp Ansawdd Rhwydwaith 14-19 yn monitro dilyniant ieithyddol y cyrsiau a ddarperir.
- Monitro data cofrestriadau ar gyfer arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg o bob sefydliad (yn cynnwys cyrsiau partneriaeth Alwedigaethol yn y Colegau). Gosod Targedau Cynnydd i bob sefydliad/cwrs partneriaeth.
- Monitro cyfrwng iaith astudiaethau dysgwyr CA4 a CA5.

Yn yr un modd, anelir at sicrhau fod pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn cael asesiad yn y Gymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA4. Er bod y ganran hon yn uchel o gymharu gyda gweddill Cymru, mae ffordd i fynd i gyflawni nod y sir yn llawn, fel y dengys y tabl isod:

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **% yn sefyll Cymraeg Iaith Gyntaf** | 78.3% | 78.6% | 78.7% | 80.8% | 85.0% | 80.6% | 76.3% |
| **%A*-C** | 70.9% | 74.4% | 76.4% | 72.6% | 73.3% | 78.8% | 76.3% |

Mae'r wybodaeth am garfannau iaith yn gymorth hefyd i ysgolion uwchradd gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu. Mae'r tabl isod yn dangos canran y disgyblion ym Mlwyddyn 11 sy'n astudio ar gyfer dau neu fwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg:

DRAFT

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **% yn sefyll 2 neu fwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg** | 78.1% | 78.8% | 79.1% | 82.0% | 87.5% | 82% | 79.4% |

Mae'r tabl canlynol yn dangos canran y disgyblion ym Mlwyddyn 11 sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg:

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **% yn sefyll 5 neu fwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg** | 60.8% | 64.7% | 67% | 71.3% | 73.3% | 74.9% | 69.4% |

Mae'r tabl isod yn dangos mai cymharol fach yw canran y disgyblion yng Ngwynedd sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg Ail Iaith ac yn sefyll arholiad Cymraeg Ail Iaith erbyn diwedd CA4:

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **% wedi sefyll Cymraeg Ail Iaith yn CA4** | 17.6% | 16.5% | 15.2% | 15.1% | 15.1% | 16.7% | 16.7% |

**Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg**

Mae gan Wynedd dri prif amcan er mwyn cyflawni'r deilliant hwn, sef:

- Parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o'r daith addysgol.
- Cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd
- Gweithredu'r Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn

Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o ADY.

**Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)**

Mae gan Wynedd bedwar prif amcan er mwyn cyflawni'r deilliant hwn, sef:

- Drwy Is-grŵp y Gymraeg (trawsawdurdod), parhau i gydweithio efo Prifysgol Bangor o ran sicrhau bod y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn cael ei ddefnyddio'n strategol i ddiwallu anghenion ysgolion.
- Cryfhau proffil ieithyddol staff mewn ysgolion penodol.
- Datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.
- Parhau i ddilyn polisi yr Awdurdod wrth hysbysebu drwy ddatgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd.

DRAFT

Wrth hysbysebu swyddi mae'r Awdurdod yn datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd.

Mae'r Awdurdod hefyd yn sicrhau bod staff sydd angen cynyddu a gwella'u sgiliau iaith yn derbyn anogaeth a chymorth i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog hyd at safon addysgu.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal a hyrwyddo Datblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n cefnogi hyfforddiant i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog, gan fanteisio ar ymchwil diweddar ac enghreifftiau o arfer dda sydd eisoes ar waith yn nifer yr ysgolion.

I gyd-fynd gyda Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, bu i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau gynnal *Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg*, gan gyflwyno cyfres o argymhellion ar sail tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'u gwaith ymchwil i sylw'r Aelod Cabinet Addysg i'w gweithredu.

Yn yr un modd, comisiynydd yr Adran Addysg adroddiad gan Alun Charles ar gryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith Addysg Gwynedd, ynghyd â beth yn union a olygir wrth addysgu a dysgu dwyieithog lle bo hynny ar waith.

Eisoes mae nifer o argymhellion yr adroddiadau hyn wedi eu cyflawni drwy gyfrwng Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae penaethiaid yr Ysgolion Uwchradd hefyd wedi dod ynghyd i sicrhau eglurder yn y modd y maent yn diffinio eu hysgolion yn ieithyddol a gwelir ffrwyth y gwaith hwnnw yn Atodiad 1.

Bwriad y Strategaeth Iaith Uwchradd yma, felly yw ceisio dwyn y cynlluniau ac argymhellion yr adroddiadau hyn ynghyd mewn modd cydlynol, yng nghyd-destun elfen gwricwlaidd y Strategaeth.

DRAFT

**SIARTER IAITH GYMRAEG YSGOLION CYNRADD GWYNEDD**

Gwyddwn os yw'r Gymraeg am oroesi yng Ngwynedd, fod yn rhaid i'r iaith fod yn gyfrwng cyfoes a pherthnasol i blant a phobl ifanc yn eu bywydau bob dydd. Er mwyn cyflawni hynny, a thrwy gydweithio rhwng Hunan**iaith**, Adran Addysg Gwynedd a Llywodraeth Cymru, datblygwyd Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd.

Datblygwyd y Siarter yn sgil data a thystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwaith o gyflawni *Asesiad Ardrawiad Ieithyddol Cynllun Ad-drefnu Ysgolion Cynradd Gwynedd* yn 2008. Ynddo, rhoddwyd manylion am yr iaith a ddefnyddir yn y dosbarth, yn y ffreutur ac ar y buarth yn holl ysgolion cynradd Gwynedd.

Mae Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd wedi bod ar waith ers ei lansio yng nghynhadledd Yr C Ffactor yn Nant Gwrtheyrn yn 2011, ac mae'r broses o ddilysu cyrhaeddiad ysgolion i gyflawni gofynion y gwobrau efydd, arian ac aur eisoes wedi eu gweithredu. Prif amcan y Siarter yw cynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg a hynny drwy gyfrwng cynllun gweithredu a chyfres o feini prawf y mae'n rhaid i'r ysgolion eu gweithredu er mwyn camu tua'r nod o ennill gwobr am sefydlu a gwreiddio arferion ieithyddol cryf a chadarnhaol ymysg y plant.

Er mwyn cefnogi'r ysgolion i gyflawni gofynion y Siarter, a gweithredu cynlluniau fydd yn annog plant i siarad Cymraeg ac yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith, sefydlwyd swydd newydd yn 2013, ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i gyd-lynu'r gwaith.

Er mwyn asesu i ba raddau y mae'r Siarter yn cyflawni ei nod o gael plant i siarad Cymraeg, datblygwyd gwe iaith, sef holiadur ar-lein sydd yn gofyn cyfres o gwestiynau am arferion iaith y plant. Cynhelir y we iaith ddwywaith y flwyddyn, ac mae'r tabl isod yn dangos canran disgyblion CA2 sydd wedi nodi yn y we iaith eu bod yn defnyddio'r Gymraeg ar iard/buarth yr ysgol[1]:

| | BOB AMSER | YN AML | WEITHIAU | YCHYDIG IAWN | BYTH |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 41.2 | 27.8 | 19.7 | 7.3 | 3.9 |
| **Bangor** | 27.6 | 32.9 | 26.7 | 9.4 | 3.4 |
| **Caernarfon** | 60.6 | 24.1 | 11.2 | 2.8 | 1.3 |
| **Dolgellau** | 12.5 | 17.0 | 32.1 | 19.9 | 18.6 |
| **Ffestiniog** | 44.2 | 32.9 | 17.7 | 3.6 | 1.6 |
| **Llŷn** | 44.5 | 29.8 | 16.6 | 6.0 | 3.0 |
| **Penllyn** | 56.5 | 21.5 | 17.3 | 2.1 | 2.6 |
| **Porthmadog** | 39.5 | 32.4 | 20.0 | 6.1 | 2.0 |
| **Tywyn** | 6.5 | 19.6 | 33.9 | 25.6 | 14.3 |

Yn sgil llwyddiant y Siarter Iaith yng Ngwynedd, bellach mae'r Siarter yn gynllun cenedlaethol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru drwy'r pedwar Consortia Addysg Rhanbarthol, gyda Chydlynwyr yn cefnogi'r gwaith ymhob un.

[1] Asesiad Llesiant Gwynedd



DRAFT

**BRAENARU'R TIR YN Y SECTOR UWCHRADD**

Ar yr un pryd, i ategu'r gwaith a wnaed gyda'r Siarter yn yr ysgolion cynradd – drwy gynllun strategol y Cyngor – cynhaliwyd archwiliad i ddefnydd cymdeithasol disgyblion ysgolion uwchradd Gwynedd o'r Gymraeg gan gwmni *Trywydd*.

Daeth hyn mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd gan bobl ifanc yn ystod y broses ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Drafft Strategaeth Iaith Gwynedd 2010-2013 a amlygodd mai cyfrwng addysg yn unig oedd y Gymraeg mewn rhai ardaloedd o Wynedd, ac nad oedd cyfleoedd cymdeithasol digonol ar gael i bobl ifanc ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i oriau ysgol.

Bu i gwmni *Trywydd* ymgymryd â'r gwaith ymchwil drwy ymweld â phob ysgol uwchradd am ddiwrnod cyfan er mwyn cynnal arolwg ysgol-gyfan. Trefnwyd grwpiau ffocws eang a chynrychioliadol gyda holl fudd-ddeiliaid yr ysgolion, a chynhaliwyd holiadur meintiol electronig gyda disgyblion Blwyddyn 9 ymhob ysgol.

Yn ogystal â'r diwrnodau ymchwil, cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol yn ystod cyfnod yr ymchwil gyda Hunan**iaith**, Cydlynydd y Siarter Iaith Cynradd, arweinwyr cymunedol y sir (Yr Urdd, CFFI, Gwasanaeth Ieuenctid, Canolfannau Hamdden) ynghyd â Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg.


Roedd canfyddiadau gwaith *Trywydd* yn amrywio'n helaeth rhwng gwahanol ysgolion ac ardaloedd, ond adnabuwyd saith prif faes i'r darganfyddiadau lefel sirol fel a ganlyn:

1. Yr angen i ddiffinio natur ieithyddol yr ysgolion ac i sicrhau eglurder
2. Y modd y mae'r ysgolion yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
3. Yr amrywiaethau sy'n bodoli o safbwynt defnydd iaith a'r cwricwlwm
4. Defnydd iaith disgyblion y tu hwnt i'r dosbarth
5. Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y disgyblion (y cartref/teulu, cyfoedion, y gymuned, hyder ieithyddol, arferion iaith)
6. Agweddau tuag at y Gymraeg
7. Y Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol

Adnabu Trywydd, ac eithrio'r ysgolion hynny lle mae'r Gymraeg yn gwbl naturiol i garfan helaeth o ddisgyblion, yn gyffredinol ar draws y sir, fod defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gryfaf yn y cyd-destunau mwyaf ffurfiol lle mae ffiniau a disgwyliadau ieithyddol yr ysgol wedi'u gosod yn eglur i bawb, ac wedi eu rhoi ar waith mewn modd cyson. Mae ymatebion Blwyddyn 9 yn creu darlun o ddefnydd cymdeithasol y disgyblion ar draws yr ysgol.

**Pan nad oes athrawon yn agos, pa iaith wyt ti fel arfer yn ei siarad â dy ffrindiau ar goridorau'r ysgol?**
*(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)*


DRAFFT




O ran nifer a nododd eu bod yn siarad Cymraeg â'u ffrindiau ar y coridorau, i gymharu â'r ffigwr Gwynedd-gyfan uchod o 32%, mae'r ganran yn 8 o ysgolion y sir yn uwch na'r ffigwr hwn, gyda 65% mewn un ysgol yn nodi mai Cymraeg sy'n cael ei siarad ymysg ffrindiau ar hyd coridorau'r ysgol, a hynny nid am fod athrawon o gwmpas.

O ran y ganran a nododd eu bod yn siarad Cymraeg â'u ffrindiau ar iard yr ysgol, i gymharu â'r ffigwr Gwynedd-gyfan uchod o 30%, mae'r ganran yn 8 o ysgolion y sir yn uwch na'r ffigwr hwn, gyda 62% mewn un ysgol yn nodi mai Cymraeg sy'n cael ei siarad ymysg ffrindiau ar yr iard, a hynny nid am fod athrawon o gwmpas.

**Pan nad oes athrawon yn agos, pa iaith wyt ti fel arfer yn ei siarad â dy ffrindiau ar iard ysgol?**
*(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)*




DRAFT

Mae canfyddiadau gwaith *Trywydd*, yn adlewyrchu ac yn ategu'r hyn a adnabu Llywodraeth Cymru yn Cymraeg 2050, sef yr angen i:

- Gefnogi siaradwyr wrth iddynt ddechrau datblygu eu sgiliau ieithyddol
- Hwyluso eu gallu a'u parodrwydd i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg, gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau a'u rhwydweithiau cymdeithasol, gyda'u cydweithwyr ac wrth ddefnyddio gwasanaethau
- Arfogi siaradwyr i wneud penderfyniadau a fydd yn help iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol.

DRAFFT

**GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD GWYNEDD**

Mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio ar y Gymraeg ac Addysg, ac yn cwmpasu elfennau cwricwlaidd yn ogystal â defnydd cymdeithasol o'r iaith. Mae 4 prif faes y mae'r Strategaeth yn ceisio ymateb iddynt:

- Cymraeg Iaith Gyntaf
- Cymraeg Ail Iaith
- Y Gymraeg fel cyfrwng
- Defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg.

Seilir y cyd-destun a'r cyfeiriad ar nifer o ddogfennau polisi allweddol, cydnabyddir fod nifer o gynlluniau eisoes yn weithredol yn y meysydd hyn mewn nifer o ysgolion yng Ngwynedd a thu hwnt, megis:

- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Adroddiad Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg – Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyngor Gwynedd.
- Adroddiad Astudiaeth Alun Charles, Ymgynghorydd Allanol.
- Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Ysgolion Uwchradd (PCAI) – Llywodraeth Cymru.
- Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 - Maes Strategol Rhif 2. Plant a Phobol Ifanc.
- Cynllun gweithredu Strategaeth Iaith Gwynedd - mynd i'r afael â thargedau cenedlaethol ar lefel ALl.
- Adroddiad Trywydd Cyngor Gwynedd (Hydref 2014) - Cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc ysgolion uwchradd Gwynedd.
- Cymraeg 2050.
- Fframwaith ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.
- Adolygiad Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus':
    - Argymhellion rhifau 21-30. Y Gymraeg.
    - Argymhelliad rhif 62. Perchnogaeth leol a chenedlaethol.

Felly mae'r Strategaeth yn ymdrech i geisio eu dwyn ynghyd mewn ffordd cydlynol er sicrhau cyfeiriad strategol clir iddynt.

Caiff prif elfennau'r Strategaeth hon eu cyflawni fel rhan greiddiol o genhadaeth a chynllunio bwriadus pob un o ysgolion uwchradd Gwynedd, a hynny drwy gynllun gweithredu unigol fydd wedi ei gytuno gyda'r ysgol, Cydlynydd y Strategaeth, ac Adran Addysg Gwynedd.

Bydd y Strategaeth yn adeiladu ar lwyddiannau'r Siarter Iaith yn yr ysgolion cynradd, a sicrheir llinyn arian cryf rhwng amcanion a gweithredoedd y Siarter, a'r cynllunio a gweithredu bwriadus i gwrdd a gofynion y Strategaeth yn yr ysgolion uwchradd, er sicrhau dilyniant a chontinwwm. Golyga hyn y bydd y modd y byddwn yn mesur defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg yn yr ysgolion uwchradd drwy gyfrwng y we iaith yn cyfateb yn rhannol i'r we iaith a ddefnyddir yn yr ysgolion cynradd, er sicrhau cysondeb a dilyniant yn y dull o fesur defnydd iaith.

DRAFT

At hyn, er mwyn gweithredu rhai o amcanion y Strategaeth hon yn llwyddiannus, bydd gofyn am weithio mewn partneriaeth gyda nifer o asiantaethau, sefydliadau a mudiadau a rhagwelwn berthynas allweddol i wireddu'r weledigaeth ac amcanion cymunedol y Strategaeth drwy gydweithio'n agos gyda Hunan**iaith**.

DRAFFT

**Y WELEDIGAETH**

Mae Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd bellach wedi ei sefydlu ac yn weithredol yn ysgolion cynradd y sir. Penderfynwyd adeiladu ar lwyddiant y siarter hon er mwyn sicrhau dilyniant priodol yn y sector uwchradd. Wrth sefydlu'r siarter cynradd, aed ati i adnabod nifer o ddulliau i fesur cynnydd defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc. Bwriedir rhoi ystyriaeth i ddefnyddio'r dulliau hyn, yn ogystal â rhai eraill, er mwyn mesur dilyniant yn y sector uwchradd.

Wrth ddatblygu Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith mai Cyngor Gwynedd yw un o siroedd Cymreiciaf Cymru. Ynddi ceir ystod eang o gyd-destunau ieithyddol sy'n ymestyn o ardaloedd sy'n cynnwys canran uchel o Gymry Cymraeg cynhenid i ardaloedd mwy Seisnigedig.

Mae'n bwysig defnyddio'r sylfaen gadarn o fewn Gwynedd fel sail i sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu'n flaengar i weithredu polisïau Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn, yn benodol y weledigaeth i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Mae Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd hefyd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd.

Mae disgyblion uwchradd wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i'r weledigaeth. Amlygwyd awydd cryf i weld y Strategaeth Iaith yn cael ei weithredu. Mae'r dyfyniadau isod yn crisialu rhai o'r negeseuon a amlygwyd:

*"Mae ysgolion angen hybu'r ffaith bod y gallu i siarad iaith hynaf Ewrop yn gymhwyster gyrfaol pwysig."*

*"Rydan ni mor falch bod pwyslais yn cael ei roi ar y Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei roi ar dir cyfartal."*

*"Diolch am roi'r cyfle i ni leisio ein barn."*

Mae Cyngor Gwynedd yn gwbl ymrwymedig i gyfundrefn o ysgolion uwchradd blaengar rhagorol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u gwaith.

Nod y Strategaeth Iaith Uwchradd yw hyrwyddo defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a'i datblygu fel cyfrwng effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol yn ei holl agweddau

Bydd y Strategaeth yn offeryn cynllunio effeithiol, gan adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith Cynradd, ar gyfer arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

Mae'n cefnogi gweledigaeth Strategaeth Iaith Gwynedd i sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu. Trwy roi pwyslais ar y Gymraeg, sicrheir bod plant Gwynedd yn hyfedr a hyderus ddwyieithog ac yn ymfalchïo yn y gwerth ychwanegol a roddir iddynt o gael dwy iaith, eu bod yn gallu defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus yn gymdeithasol ac yn broffesiynol wedi gadael yr ysgol a'u bod yn y pen draw yn trosglwyddo'r ddwy iaith i'r genhedlaeth nesaf yng Ngwynedd.

DRAFT

Mae hi hefyd yn cyfrannu i weithredu strategaeth ddwyieithog drwy hyrwyddo’r Gymraeg gan sicrhau ei bod yn gyfartal o ran statws a chyfleoedd.

Bydd pob ysgol yn gweithredu’r Strategaeth Iaith Uwchradd ac yn llwyddo i sicrhau fod holl randdeiliaid yr ysgol ynghlwm â’r cynllun hwn.

DRAFFT

**AMCANION.**

**Amcan 1: Arweinyddiaeth a Disgwyliadau[2]**

Mae cynnal ansawdd uchel i arweinyddiaeth wedi bod yn her i Wynedd ers rhai blynyddoedd, ac mae adolygiad o'r arweinyddiaeth yn un o'i blaenoriaethau yng nghyd-destun trefniadaeth ysgolion ar hyn o bryd. Mae'r rhesymeg am hynny yn syml; fe ddengys ymchwil mai'r ffactor pennaf wrth ddylanwadu ar ansawdd addysg mewn ysgolion yw ansawdd yr arweinyddiaeth.

Yn yr un modd, mae dogfennaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gwaith yn y maes arweinyddiaeth a safonau arweinyddiaeth gyda gweithredu *Dyfodol Llwyddiannus*, yn cyfleu yr un neges eto.

Mae'n amlwg , felly, os yw Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd am lwyddo, mae'n rhaid i ansawdd ac ymroddiad a pherchnogaeth y tîm arweinyddiaeth mewn ysgolion fod yn gadarn o'i phlaid.

Mae'n hanfodol, felly, fod arweinyddiaeth yn un o'r amcanion yn y Strategaeth Iaith, sef:

- Sicrhau bod Cyngor Gwynedd a'r Adran Addysg yn ymrwymo'n gadarn i gefnogi a herio ysgolion i weithredu'r Strategaeth Iaith Uwchradd.
- Sicrhau bod gan arweinyddiaeth yr ysgol, llywodraethwyr ac uwch reolwyr ddisgwyliadau uchel o safbwynt gweithredu'r Strategaeth Iaith Uwchradd.
- Sicrhau bod gan y gweithlu, yn sgil yr arweiniad a ddarperir, hefyd ddisgwyliadau cadarn a theimlad o falchder yn llwyddiant yr ysgol i weithredu'r Strategaeth Iaith Uwchradd. O ganlyniad, sicrhau fod holl randdeiliaid yr ysgol yn hyrwyddo'r Strategaeth Iaith Uwchradd yn gadarn ac yn ymfalchïo ynddi.
- Sicrhau bod strwythur staffio'r ysgol yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir am weithrediad gwahanol agweddau o fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- Sicrhau bod gan bob ysgol gynllun gweithredu tair blynedd ar gyfer y Strategaeth Iaith Uwchradd sydd wedi ei ymgorffori o fewn Cynllun Datblygu'r Ysgol. Bydd y cynllun hwn yn hyrwyddo'n gadarn nodau'r Strategaeth Iaith Uwchradd.

**Amcan 2: Ethos[3]**

- Sicrhau bod pob agwedd o fywyd bob dydd yr ysgol a'i chymuned yn hyrwyddo'r ethos Cymreig.
- Meithrin ymwybyddiaeth o hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth Cymru ymysg cymuned yr ysgol.

---

[2] Dyfodol Llwyddiannus, Llywodraeth Cymru
[3] Polisi Iaith Addysg Gwynedd, Strategaeth Iaith Gwynedd, Maes Strategol 2.



DRAFT

- Sicrhau bod pob agwedd o raglen allgyrsiol yr ysgol yn arddel ac yn hyrwyddo'r Gymraeg.

**Amcan 3: Pobl Ifanc**[4]

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw rhoi rôl amlycach a chryfach i bobl ifanc i fynegi barn, ac mae'r egwyddor o sicrhau bod pobl ifanc yn cael llais canolog yng nghyfeiriad y Strategaeth hon, ac yn cael cyfle i ddylanwadu arni ac i effeithio ar ei chyfeiriad, ac yn bwysicach na dim, ei pherchnogi hi, yn hollol greiddiol i'w llwyddiant.

Wrth weithredu agenda llais yr ifanc, mae'n holl bwysig bod agenda'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno gyda delwedd gyffrous, ddeniadol, ddeinamig, modern - iaith y dyfodol. Nid iaith hen ffasiwn, nid iaith yn perthyn i fyd llenyddiaeth yn unig ond iaith sy'n perthyn i'r cyfryngau cymdeithasol, i fandiau cerddoriaeth egnïol ac i gyflwyniadau o bob math.

O gyflwyno'r iaith Gymraeg yn y modd yma, ac asio'r ddelwedd gyffrous ac egnïol honno hefo perchnogaeth pobl ifanc ar yr agenda, gallwn sicrhau bod y Strategaeth Iaith Uwchradd, yn un sy'n cael ei pherchnogi gan bawb:

Mae'n hanfodol felly fod pobl ifanc yn un o amcanion ar gyfer y Strategaeth:

- Sefydlu Cyngor Iaith i sicrhau bod llais yr ifanc yn cael lle blaenllaw yn y cynlluniau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol.

- Sicrhau bod y Cyngor Iaith yn datblygu rôl arweinwyr a llysgenhadon iaith yn yr ysgol gyda disgwyliadau penodol.

- Sicrhau bod y Cyngor Iaith yn cynnal ac yn hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol Cymraeg yn yr ysgol.

- Sicrhau bod y Cyngor Iaith yn gweithredu i godi ymwybyddiaeth am ddigwyddiadau Cymraeg yn y gymuned ac yng Nghymru.

- Sicrhau bod y Cyngor Iaith yn hyrwyddo hanes Cymru fydd yn sicrhau fod pobl ifanc yn magu ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig ac o falchder.

- Sicrhau bod y Cyngor Iaith yn cyd-gynllunio i boblogeiddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar y cyfryngau cymdeithasol.

- Sicrhau bod y Cyngor Iaith yn arwain ac yn perchnogi cynllun PCAI a Fframwaith Arferion Iaith, Llywodraeth Cymru.

[4] Strategaeth Iaith Gwynedd, Hunaniaith; PCAI, Fframwaith Defnydd Iaith Anffurfiol, Llywodraeth Cymru.



DRAFT

**Amcan 4: Hyfforddiant**[5]

Mae gan y sector addysg yng Nghymru hanes hir o fuddsoddi adnoddau ariannol a phersonél sylweddol iawn i fyd hyfforddiant, ac yn ddiweddar iawn mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu arian i'r pedwar Consortia Addysg i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu addysg mewn ymateb i *Cymraeg 2050*.

Os yw'r Strategaeth Iaith Uwchradd yng Ngwynedd am lwyddo, mae angen adnabod yn glir beth yw sgiliau y mae athrawon a staff eraill yr ysgolion eu hangen er mwyn gweithredu'r Strategaeth, ac mae angen darparu pecyn hyfforddiant effeithiol er mwyn uwch-sgilio'r staff hynny i gyflwyno a gweithredu'r Strategaeth Iaith yn effeithiol.

Yn unol ag argymhellion adroddiad Alun Charles, cydweithio a chyfrannu at Gynllun Datblygu'r Gweithlu (GwE) er mwyn cefnogi staff i:

- ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg a meithrin eu hyder i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

- gyflwyno pynciau yn gynyddol ac yn fwy effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

- ddarparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg neu sydd yn y broses o groesi'r bont ieithyddol.

- ymateb yn effeithiol i ddisgyblion er mwyn sicrhau hoffter a brwdfrydedd at yr iaith a sicrhau ymatebion llafar yn y Gymraeg o fewn gwersi.

- gael ymwybyddiaeth uchel a theimlad o berchnogaeth a balchder yn narpariaeth Gymraeg yr ysgol.

**Amcan 5: Rôl Adrannau Iaith**[6]

Mae'n bwysig, wrth ystyried rôl yr adrannau iaith, bod yr arbenigedd yna i fod yn sensitif i anghenion dysgwr, i ddeall heriau dysgu iaith a chroesi'r bont ac i fod yn gefn i'r dysgwr i groesi'r bont honno mewn dull gadarnhaol, brwdfrydig ac egnïol. Mae'n angenrheidiol bod hyn yn bodoli ac yn weithredol o fewn yr ysgolion i gyd. Mewn achosion pan nad yw'r ystod yna o sgiliau ar gael, mae angen hyfforddi.

Yn dilyn hynny, mae angen nodi bod gan yr adrannau Cymraeg ystod eang o gyfrifoldebau a chydnabod yr ystod eang o heriau sy'n eu hwynebu. Nid dim ond i hyfforddi'r Cymry Cymraeg cynhenid, ond i hyfforddi'r rhai di-Gymraeg hefyd.

[5] Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru; Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Deilliant 7; Cynllun Datblygu'r Gweithlu, GwE.
[6] Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Deilliant 2, 3, a 4.



DRAFT

Felly, mae angen bod yn glir ynglŷn â'r cyfrifoldebau, a sicrhau bod y sgiliau a'r weledigaeth, o fewn yr adrannau Cymraeg eu hunain, yn bresennol wrth weithredu'r Strategaeth Iaith Uwchradd.

Mae'n hanfodol felly fod adrannau iaith craidd yn un o amcanion ar gyfer y Strategaeth:

- Dathlu gwerth Cymraeg Iaith gyntaf fel cymhwyster pwysig yng Ngwynedd.
- Gweithredu disgwyliadau i ddisgyblion ddilyn rhaglen Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 sy'n ddilyniant effeithiol i'r hyn a gyflawnwyd yn CA2.
- Gweithredu disgwyliadau i ddisgyblion ddilyn rhaglen Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA4 sy'n ddilyniant effeithiol i'r hyn a gyflawnwyd yn CA3.
- Sicrhau bod pob disgybl yn parchu pob iaith a dealltwriaeth o iaith.

**Amcan 6: Profiadau Cwricwlaidd[7]**

Mae'r adran ar brofiadau cwricwlaidd o fewn y Strategaeth Iaith Uwchradd yn pontio'r cyswllt rhwng sgiliau llythrennedd ac iaith ar draws y cwricwlwm a'r angen i hyrwyddo'r Gymraeg yn benodol fel iaith.

Mae gweledigaeth Bullock bellach, a gyflwynwyd yn y flwyddyn 1975, yn hen hanes ond craidd y weledigaeth honno oedd bod pob athro yn athro iaith.

Yng Nghymru ac yng Ngwynedd, mae hi wedi cymryd chwarter canrif i'r feddylfryd honno ddechrau gwreiddio; a bellach, mae yna ymwybyddiaeth gynyddol am gyfrifoldeb am lythrennedd o fewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae angen ychwanegu at y cyfrifoldeb hwnnw yn benodol, gan adnabod fod y Gymraeg fel iaith i'w hybu yn gyfrifoldeb i bawb. Mae'r weledigaeth yma yn ymwneud yn syml efo'r cyfuniad yna o egwyddor fod pob athro yn athro iaith, ond yng Ngwynedd, fod pob athro yn athro yr iaith Gymraeg.

Mae oblygiadau y gosodiad hwn yn bellgyrhaeddol. Mae'n ymwneud ag agweddau o fewn y Strategaeth Iaith Uwchradd sy'n ymwneud â hyfforddiant a methodoleg dysgu, a dulliau ysgol o weithio.

Mae'n hanfodol felly fod profiadau cwricwlaidd yn un o amcanion ar gyfer y Strategaeth:

- Sicrhau bod pob disgybl yn cael profiadau cwricwlaidd darllen, ysgrifennu, llafar a gwrando trwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 sy'n adeiladu, yn ddilyniant ac yn dangos cynnydd yn y sgiliau a'r profiadau ieithyddol a ddarparwyd yn CA2.

[7] Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Deilliant 2, 3, a 4.



DRAFT

- Sicrhau fod pob disgybl yn cael profiadau cwricwlaidd darllen, ysgrifennu, llafar a gwrando trwy gyfrwng y Gymraeg yn CA4 sy'n adeiladu, yn ddilyniant ac yn dangos cynnydd yn y sgiliau a'r profiadau ieithyddol a ddarparwyd yn CA3.

- Sicrhau cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr sy`n dilyn cyrsiau CA5 yn bennaf neu`n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg trwy ddatblygu hyder ymgeiswyr, athrawon ac arweinyddion.

**Amcan 7: Dysgwyr Pontio[8]**

Mae'r ddelwedd o groesi pont, wrth drafod iaith, yn ei hanfod, yn un sy'n creu ychydig bo anhawster yng Nghymru oherwydd mai'r dybiaeth gyffredin wrth i ni sôn am 'bontio' dysgwyr yw mai dim ond *rhan* o'r bont yn unig y bydd dysgwyr yn ei cherdded. Mae cyfle i Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd daflu'r dybiaeth honno o'r neilltu.

Yn ysgolion mwyaf llwyddiannus Gwynedd, gall dysgwyr gyrraedd o Ddwyrain Ewrop ym mlwyddyn 8 a 9 a sefyll TGAU mamiaith Cymraeg ac ennill graddau uchel ym mlwyddyn 11. Golyga hynny broses o gynllunio ieithyddol a pharatoi gofalus a disgwyliadau uchel, ac o fod yn glir ynglŷn â beth yw, a ble mae, pen draw'r bont.

Her Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd yw sicrhau fod pob dysgwr yn *croesi'*r bont ac nid cyrraedd ei chanol yn unig.

Mae'n hanfodol felly fod dysgwyr yn un o amcanion ar gyfer y Strategaeth:

- Sicrhau bod disgyblion sydd ar drywydd Cymraeg iaith gyntaf, wrth drosglwyddo o CA2 i CA3, yn parhau i wneud cynnydd pellach ar y trywydd hwnnw.

- Sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn defnyddio'r gwaith rhagorol a wneir gyda dysgwyr yn y cynradd fel sail i gynnydd cadarn pellach.

- Sicrhau bod dysgwyr a dysgwyr pontio yn croesi'r bont, yn parhau i wneud cynnydd effeithiol i feistroli'r Gymraeg gyda'r nod o astudio Cymraeg Iaith Gyntaf ar lefel TGAU.

- Sicrhau bod dysgwyr a dysgwyr pontio yn gwneud eu gwaith yn gynyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Sicrhau cefnogaeth effeithiol i rieni dysgwyr gan sicrhau eu bod yn cefnogi cynnydd y dysgwyr.

- Dathlu llwyddiannau dysgwyr

**Amcan 8: Yr Ysgol a'r Gymuned[9]**

[8] Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Deilliant 2, 3 a 4.



DRAFT

Mae'r ddau derm a ddefnyddir yn aml ym myd addysg Cymru sef *gweithredu'n ymatebol* a *gweithredu'n rhagweithiol*, yn hollol greiddiol i berthynas yr ysgol â'r gymuned.

Wrth i ni feddwl am weithio'n ymatebol, mi fyddwn yn ymateb i rieni sy'n mynegi pryder bod eu plant yn dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg; byddwn yn ymateb i rieni sy'n mynegi pryder â'r modd mae eu plant yn ymdoddi mewn awyrgylch Gymreig, a byddwn yn ymateb i bryderon disgyblion, sydd weithiau, yn ei chael hi'n anodd i ymgyfarwyddo o fewn cyd-destun ieithyddol newydd sbon.

Wrth weithio'n rhagweithiol fodd bynnag, bydd yr heriau ymatebol yna i gyd yn diflannu. A dyma, mae'n debyg, yw'r ateb i sicrhau cyswllt cadarn â'r gymuned.

Mae angen i ysgolion ddefnyddio'r agweddau Cymraeg a Chymreig o'u cymuned gan ymestyn allan yn rhagweithiol, yn adeiladol a chadarnhaol i gynnwys y rhieni a'r disgyblion i sicrhau eu bod yn gweld y Gymraeg, nid yn fygythiad, ond yn rhywbeth croesawgar a diogel, a bod modd ei chofleidio a llwyddo ynddi fel allwedd i fyw yn y gymuned ac hefyd i gael gyrfa yn lleol.

Mae'r pwyslais, felly, ar '*weithredu'n rhagweithiol*' yn hollol allweddol wrth i ni fynd i'r afael â'r agwedd hon.

Mae'n hanfodol felly fod yr ysgol a'r gymuned yn un o amcanion ar gyfer y Strategaeth:

- Sicrhau fod yr ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn rhagweithiol i rieni a'r gymuned ehangach.
- Sicrhau fod yr ysgol yn hyrwyddo rôl y Gymraeg fel cymhwyster gyrfaol pwysig ac yn hyrwyddo cyfleoedd i ddisgyblion gael profiadau Cymraeg wrth ymwneud ag ystod eang o gyflogwyr ac asiantaethau allanol.
- Sicrhau fod yr ysgol yn hyrwyddo manteision addysgol dwyieithrwydd.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan staff yr ysgol.
- Sicrhau fod gweithgareddau ac asiantaethau allanol megis Gyrfa Cymru, gwasanaeth ieuenctid, y gwasanaeth hamdden a'r Urdd yn darparu profiadau sy'n atgyfnerthu profiadau'r disgyblion yn y Gymraeg.

DRAFT

[9] Strategaeth Iaith Gwynedd, Maes Strategol 1 a 3.

**TREFNIADAU MONITRO.**

Defnyddir y drefn isod ar gyfer monitro'r cynllun:

- Cydlynydd Strategaeth Iaith Ysgolion Uwchradd Gwynedd:
  - Cefnogi pob ysgol i lunio adolygiad iaith cytunedig.
  - Cefnogi a herio pob ysgol i lunio cynllun gweithredu iaith safonol.
  - Cefnogi pob ysgol i weithredu'r cynllun gweithredu yn effeithiol.
  - Darparu anogaeth, cefnogaeth a hyfforddiant i ysgolion yn ôl yr angen.

- Cydlynwyr Iaith Ysgolion Uwchradd Gwynedd

- Bydd y grŵp llywio yn parhau mewn rôl craffu a monitro.

- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, Cyngor Gwynedd.

- Rhan greiddiol o drefniadau monitro fydd y cyfarfod tymhorol a blynyddol i adolygu cynnydd y mae pob ysgol wedi ei gwblhau o fewn y cynllun gweithredu.

Defnyddir y sail isod ar gyfer monitro, adnabod yr hyn sydd wedi ei weithredu, yr hyn sydd angen mwy o sylw ar gyfer gweithredu yn y dyfodol ac unrhyw newid cyfeiriad a phwyslais:

- Ansawdd cynlluniau gweithredu'r ysgol a lefel yr her.

- Graddfa llwyddiant wrth gwblhau cynlluniau gweithredu pob blwyddyn unigol.

- Barn grwpiau disgyblion ym mhob ysgol.

- Barn y grŵp llywio a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys penaethiaid, athrawon.

- Defnyddir cyfuniad o feini prawf llwyddiant proses a meini prawf llwyddiant perfformiad (deilliannau). Rhoddir y prif bwyslais ar fesur cyflawniad y deilliannau.

DRAFT

**DIFFINIO YSGOLION YN ÔL Y DDARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG:**
**Y CATEGORÏAU AR GYFER YSGOLION UWCHRADD**

## POLISI IAITH CYNGOR SIR GWYNEDD

Datblygwyd polisi Iaith Cyngor Sir Gwynedd ym 1996.

Mae'n datgan mai'r un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd Cyfnod Allweddol (CA) 2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, y nod yw parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Mae gofyn i ysgolion uwchradd adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd yn gweithio i gyfeiriad y cydbwysedd ieithyddol a argymhellir yn y Polisi Iaith, rhai'n fwy agos na'i gilydd.

## DIFFINIADAU LLYWODRAETH CYMRU (HYDREF 2007)

Mae *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (Hydref 2007), dogfen a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, yn amlinellu disgrifiadau a chategorïau ysgolion yn ôl faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio wrth addysgu a dysgu, ac yn yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y categorïau er mwyn casglu gwybodaeth ynglŷn â darpariaeth genedlaethol a hefyd yn lleol gan awdurdodau addysg ac ysgolion er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni am ba fath o ysgolion sydd ar gael mewn cymdogaethau gwahanol. Mae'r ddogfen yn datgan y dylai'r wybodaeth helpu llywodraeth leol a chenedlaethol i asesu a yw'r ddarpariaeth yn cwrdd â'r galw lleol. Mae dogfen y Llywodraeth yn datgan fel a ganlyn: '*Er nad oes unrhyw sail gyfreithiol i'r diffiniadau, eu diben yw rhoi gwell gwybodaeth i rieni ac i lywodraeth leol a chenedlaethol ynghylch i ba raddau mae disgyblion yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.'* Byddai angen rheoliadau er mwyn gwneud hyn yn orfodol.

Mae'r categorïau canlynol yn y sector uwchradd:

- Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg
- Ysgol Uwchradd Ddwyieithog (a'r categori wedi'i rannu'n 4 is-adran).
- Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
- Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf

Nid yw'r sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol yn y modd a amlinellir uchod. Eto i gyd, mae *Fy Ysgol Leol*, sef gwefan boblogaidd iawn a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, i'w gwneud yn haws i rieni ac i bawb arall sydd â diddordeb gael gweld data am ysgolion, yn cynnwys adran ar Gategoreiddio Ysgolion yng Ngwynedd. Mae'n seiliedig ar y ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (Hydref 2007).

Mae *Fy Ysgol Leol* yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am gategorïau ysgolion uwchradd y sir, ac fel y gwelir, dau gategori sy'n berthnasol i Ysgolion Uwchradd Gwynedd sef:

**Ysgol Uwchradd Ddwyieithog**

- **Categori 2A -** Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.
- **Iaith yr Ysgol -** Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

**Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg**

- **Y cwricwlwm -** Addysgir yn y naill iaith a'r llall, ac addysgir 20 - 49% o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rheol, byddai pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
- **Iaith yr Ysgol -** Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn y naill iaith a'r llall, neu yn Saesneg.

| YSGOL | DIFFINIO CATEGORI IAITH |
|---|---|
| **Ysgol Ardudwy** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Botwnnog** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Brynrefail** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Dyffryn Nantlle** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Dyffryn Ogwen** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Eifionydd** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Friars** | **Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg** |
| | |
| **Ysgol Glan-y-môr** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Syr Hugh Owen** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Tryfan** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Tywyn** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Y Berwyn** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Y Gader** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Y Moelwyn** | **Dwyieithog (Categori A)** |